

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 277 - 60c
Hydref 2009

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Ymwelydd gweithgar o Batagonia



Tudalen 15

Cadwyn arall o gyfrinachau



Tudalen 14

Holl hanes Eisteddfod Llambod



Tudalen 11 a 17



Apêl y Gors yn codi tua £34,000.
Mwy ar dudalen 6 a 16.





Llongyfarchiadau i Bethan, un o ferched Dewi a Meinir Owen, Esgairgyfela, Aberdyfi ac Owain, un o feibion Andrew a Pat, Felindre Uchaf, Cwmann ar eu priodas. Hoffai Bethan ac Owain ddiolch i bawb am eu dymuniadau gorau.



Martin Duffy ac Angela Farquharson, Yr Hen Swyddfa Bost, Ffarmers a briodwyd ar yr 8fed o Awst yn Eglwys Caio, gyda'r Parchedig Jo Penberthy yn gwasanaethu. Cynhaliwyd y neithior yn Nolaugwynion, Ffarmers, a threulion eu mis mêl yng Ngwlad Thai. Dymuniadau gorau i'r ddau am ddyfodol hapus gyda'i gilydd.



Meryl unig ferch Elgan ac Iris Evans, Troedrhiw, Harford a Rhydian, mab hynaf Melvyn a Joyce Jenkins, Blaenplwyf, Abermeurig wedi eu priodas yng Nghapel Salem Caio ar Sadwrn Medi 12ed.

Mae'r pâr ifanc wedi ymgartrefi yn Bryn Steffan, Llambod.



Alison Thomas a Dean Reader yn dilyn eu priodas ar yr 8fed o Awst yng Nghapel y Groes, Llanwnnen. Hoffai'r ddau ohonynt ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu rhoddion caredig.



Adrian Evans, Maes Aeron, Talsarn a Wendy Lewis, Llynbychan, Sancler a unwyd mewn priodas yng Nghapel y Drindod, Sancler ar ddydd Sadwrn, yr 8fed o Awst. Treuliodd y ddau eu mis mêl yn ardal y Llynnoedd. Maent bellach wedi ymgartrefu yn Penbanc, Ffarmers.



Aelodau a ffrindiau Eglwys Shiloh, Llanbedr Pont Steffan yn ymweld ag un o gapeli mwyaf hanesyddol Cymru – Bethesda'r Fro ym Mro Morgannwg. Cysylltir y capel â'r Emynydd Thomas William a chafwyd cyfle i ganu rhai o'i emynau. Trefnwyd y daith gan Hazel a Twynog Davies ar ran yr eglwys.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Hydref Eifion ac Yvonne, Afallon, Drefach 480590
Tachwedd Rhian Lloyd, 12 Bro Dderi, Ffosyffin 01545 571234
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies,
Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipyddion Nia Davies, Maesglas 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwyr Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamlwg 480453
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffwyr Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Terry Jones, Awel y Grug, Cwmann 421173
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd luniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Timothy Blong

Ydw, rwy'n edrych ar ei lofnod a'r dyddiad 1946 arno ar gefn cerdyn o'i waith yn dwyn y geiriau 'Two heads are better than one'. Mae fy niolech yn fawr i'r llu o gyfeillion sydd wedi cysylltu wedi gweld yr enw yn Siprys diwethaf.

Nid oes sicrwydd fod y ffeithiau yma yn hollol gywir gan fod blynyddoedd wedi mynd heibio. Credir mae ffoadur o garcharor Almaenig oedd Blong, wedi dod ac ymgartrefu yn Cwmnant Hall, Llanwenog. Murddyn oedd hwn fel ei dŷ haf yn Llanrhystud. (Mae'r Parch Goronwy yn dweud yr hoffai ychwanegu 'Cofiwch Blong' at 'Cofiwch Tryweryn' ar y murddyn ger Tregynnan Isaf.)

Mae hanes hwn yn gysylltiedig â chymeriad arall o Cwrtnewydd; 'Daisy Cambrian'. Cadwai hon siop gwerthu popeth yn y pentre ac fe edrychodd ar ôl Timothy yn dda. Roedd angen 'Ration Book' ar bawb y pryd hynny ond nid oedd un ganddo fe. Gwnai Daisy yn siwr nad oedd yn gweld eisiau dim bwyd na dillad. Roedd yn ffefryn mawr gan y plant, (diolch i Margaret Lloyd o Gribyn am y wybodaeth), a byddent yn galw i'w weld yn aml. Byddai rhai ohonynt yn dwyn siwgir a the o'i cartrefu ac yn mynd a nhw yn anrhegion iddo. Byddai yntau yn rhoi cerdyn o'i waith yn ddiolch i'r plant. Cefais fenthg 9 o'r cardiau gan Mary Jones Penrheol. Byddai yn torri darnau o garbord tua 6½ wrth 4½ o fodfeddi ac yn addurno gyda neges debyg i God is Love' neu 'Home sweet home,' diau fod y carbord o Siop Daisy Cambrian hefyd. Gwerthai'r rhain am 2d i gael

arian ffags. Y darlun sydd gan y rhai sy'n ei gofio, yw amdano yn gwisgo fel trempyn ac yn pigo stwmp. Deallir ei fod wedi dweud wrth Daisy un diwrnod fod y meddyg yn trefnu iddo fynd i'r Ysbyty yn Aberystwyth. 'I'm going for a long sleep, and maybe I won't wake up'.

Y noswaith wedi iddo fynd o 'Cwmnant Hall', dyma'r heddlu yn galw gyda'r diweddar Bifan Jenkins, Tancoed, yn gofyn iddo ddod gyda nhw i ddiogelu'r cartref. Tybient hwy fod enw mor grand yn golygu tŷ bonedd yn hytrach na bwthyn oedd wedi mynd a'i ben iddo. Tybed a'i dyma ddiweddd ei hanes. Rwy'n sicr y caf fy nghwiro am lawer o'r ffeithiau. Eich lle chi yw gwneud hynny.

Diwallu ein hangen am gofio

Fe ddengys yr ymateb i'r hanesyn uchod ddeisyfiad llawer ohonom am ddwyn i gôf atgofion o'r gorffennol. Ysgrifennwch nhw i lawr, yn y Saesneg os mynwch, a dewch a nhw i Clonc. Mae na ddarlennwyr di-ri yn disgwyl yn eiddgar am eu darllen.

Apêl y Gors.

Mae'r gweithgaredd codi arian fu yng Ngorsgoch yn ddiweddar tuag at yr Uned Chemotherapy yn Glangwili yn haeddu clôd. Mae ardal wledig gyda theuluoedd brwdfrydig yn cyd-weithio ac yn denu muduadau o fewn y plwyf i gynorthwyo, yn rysâit am lwyddiant. Llongyfarchiadau i chi, ac os oes darlennwyr a hoffai chwyddo'r coffrau ychydig eto – nid yw byth yn rhy hŵyr. Mae Tafarn Cefn Hafod Gorsgoch yn ddigon haws i gael hyd iddi.

Hwyl fawr am y tro, **CLONCYN**

www.clonc.co.uk



Y Pentre ble ffilmwyd Sali Mali a'i ffindiau ar gyfer y gyfres 'Pentre Bach' gan S4C

HWYL GŴYL WYTHNOS DATWS CEREDIGION

Dewch i Bentre Bach am ddiwrnod llawn hwyl a sbri. Neu beth am aros yn y llety hunanddarpar 4 seren moethus

Cewch gyfle i weld y gwahanol fathau o datws, amrywiaeth o ryseitiau, offer hau a chynaeafu.

Cyfle i'r plant ddysgu ac i'r oedolion gofio am y ffordd yr oedd bwyd yn cael ei dyfu!

24 HYDREF -1 TACHWEDD

Hefyd cofiwch am Siôn Corn ym Mhentre Bach
4-20 Rhagfyr* (Ond am ddydd Sadwrn 12/12/09)

Ffoniwch am fanylion. Rhaid archebu tocynnau ymlaen llaw

PENTRE BACH NI CYFYNGEDIG
Cofrestrwyd yng Nghymru - Rhif Cwmni 4665100
Rhif TAW - 771 0727 35
Swyddfa Gofrestredig:- Tŷ Clŷd Blaenpennal Aberystwyth Ceredigion SY23 4TW
pentrebach@btconnect.com 01974-251676
www.pentrebach.org



HYDREF

- 1 Cwrdd Diolchgarwch Seion, Cwrtnewydd am 7 y.h Y Parch Judith Morris, Aberystwyth
- 2 Cwrdd Diolchgarwch Capel Llidiad Nenog 7y.h. Pregethir gan Y Parch Eirian Lewis
- 2 Noson Moes a Phryn yn Neuadd Seion, Cwrtnewydd dan nawdd Urdd y Benywod, Capel y Bryn am 7:30y.h.
- 3 Sioe'r Cardis 2010 yn cynnal Sioe Ffasiwn Duet ynghyd â chinio a dawns yng Ngholeg Prifysgol Llambled.
- 4 Ras Hwyl Ysgol Llanwenog. Plant 10.30 y.b. Oedolion 11.00 y.b. (Ras 6 milltir). Bydd lluniaeth ar werth ar safle'r Ysgol i bawb.
- 5 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7 y.h Y Parch Eileen Davies, Llanllwni
- 5 Cinio Dathlu Diemwnt S.Y.M. Coedmor yng Ngwesty Glynhebog.
- 5 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Groes am 7y.h. Y Parch Goronwy Evans.
- 9 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr.
- 13 Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan am 7y.h. Y Parch John Gwilym Jones,
- 14 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos, Pregethwr Gwadd: Parch J. Geraint Morse, am 7 o'r gloch.
- 14 Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni, 7y.h. Y Parchedig Eirian Lewis.
- 15 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, am 7:30 y.h. Delyth Morgans, Aberystwyth
- 16 a 17 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr.
- 17 Noson gyda'r grŵp Montre yn y Llew Du Llanybydder am 8.30 o'r gloch. Yr elw tuag at Ymchwil y Cancr. Tocynnau yn £6.
- 18 Cwrdd y Bobl Ifanc yn Noddfa, Llambled am 3.30y.p.
- 18 Cwrdd Diolchgarwch Capel Alltyblaca am 5y.h. Y Parch Aled Jones.
- 18 Cwrdd Diolchgarwch Capel Cae'ronnen am 7y.h Y Parch Eric Jones.
- 19 Cyfarfod cyntaf Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrrhos am 7.30 yng nghwmni Lyn Jenkins, Llanybydder
- 20 Cyfarfod Blynnyddol Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanwenog 7.30 y.h.
- 20 Cwrdd Diolchgarwch C.Ff.I Llanllwni yn Eglwys Llanfihangel-ar-arth 7.30yh
- 24 Perfformiadau gan enillwyr Ceredigion o'r Rhuban Glas yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghapel Soar, Llambled a'r elw i Sioe Frenhinol Ceredigion 2010.
- 24 Cyngerdd gan Gôr Llanpumsaint a'r cylch yng Nghapel Tabernacl Caerfyrddin am 7.30, i gofio marwolaeth Handel 250 mlynedd yn ôl. Mynediad £10 wrth y drws.
- 26 Derbyn newyddion CLONC ar gyfer rhifyn mis Tachwedd.
- 29 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.
- 30 Cinio Cynhaef C.Ff.I. Cwmann yn Neuadd St Iago, Cwmann.
- 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.

TACHWEDD

- 5 Cyfarfodydd Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion yn Noddfa, Llambled.
- 6 Cinio Blynnyddol Sioe Llambled yn y Llew Du am 7.30. Gŵr Gwadd: Dai Jones, Llanilar.
- 11 Stondin Gacennau Cylch Gwenog tu allan i'r ysgol - 8.30 y.b.
- 15 Oedfa Sul yr Urdd yn Noddfa, Llambled am 5 o'r gloch.
- 20 Bingo Cymdeithas Rien i ac Athrawon Ysgol Carreg Hirfaen yng Nghanolfan Cwmann.
- 23 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Rhagfyr.
- 24 Arddangosfa Goginio gan Sirian Davies yn Ffestri Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.
- 26 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Llambled (lleoliad i'w gadarnhau).
- 28 Arwerthiant blynnyddol Seion, Cwrtnewydd am 3:00 y.p
- 28 Cylch Meithrin Llanllwni yn cynnal 'Ffair Gaeaf', yn Neuadd Cymunedol Llanllwni.
- 28 Cic-gychwyn i'r Nadolig yn Neuadd Fwyd Lloyd Thomas Coleg Llambled. Elw at apel Nyrs Calon Ceredigion Sefydliad y Galon.
- 27 - 28 Ffair Grefftau ac Arddangosfa Flynnyddol yn Neuadd y Coniad, Pumsaint. Raffl at Gancr y Fron Cymru. Te a choffi. Crefftwyr lleol.
- 29 Ras Y Mast gan Clwb Rhedeg Sarn Helen o ganolfan gwyliau Blaenwern Llanybydder. Ras plant 12.30yp ac oedolion 1 o'r gloch.

RHAGFYR

- 6 Gwasanaeth Garolau C.Ff.I. Cwmann yng Nghapel Brondeifi.



Roedd gŵyl banc Awst yn benwythnos prysur i redwyr Sarn Helen. Dydd Sadwrn, Ras Beca i'r oedolion a Ras y Mochyn Du i'r plant, a dydd Sul ras 10K yn St. Clears. Dydd Sadwrn roedd y tywydd yn sych ond yn wlyb a phwdeleg o dan draed. Yn 3ydd Carwyn Thomas 38 munud 12 eiliad; 6ed a 1af dynion 40 Glyn Price 39 munud 25 eiliad; 12fed Andrew Abbott, 41 munud 4eiliad; 18fed Haydn Lloyd 43 munud 17 eiliad, 21ain Gethin Jenkins 45 munud 27eiliad; 29ain, Calvin Williams, 48 munud 55 eiliad; 39ain, Huw Price, 50munud 4 eiliad; 40fed Carys Davies 50 munud 5eiliad; 45ain Lyn Rees' 51munud 49eiliad; 63ain, Gareth Jones 55 munud 4 eiliad; 73ain, Caryl Davies 57 munud 29eiliad; 90ain - Jan Jones 1 awr 2 funud 52eiliad; 91ain - Sian Jenkins 1 awr 3 munud 17eiliad; 104 - Gudrun Jones 1awr 16 munud 41eiliad. Enillwyd y tîm gan Carwyn Thomas, Glyn Price, Andrew Abbott and Haydn Lloyd.

Rhian Jones enillodd ras y Mochyn Du i blant dan 14.

Ras Trots 10K. 2ail Glyn Price 35 munud 22 eiliad a cyntaf dynion 40; 3ydd ac ail dynion 40 Michael Davies, 36 munud 28eiliad, 18fed Huw Price 41 munud 8 eiliad; 2ain Simon Hall 41 munud 52 eiliad; 22ain - Tony Hall 41 munud 55 eiliad; 27ain Mark Dunscombe, 42 munud 17eiliad; 44an - Dee Jolly 45 munud 2 eiliad; 57ain, Gareth Jones 49 munud 4eiliad; 62ain Caryl Davies 52 munud 35eiliad; 67ain, Jan Jones 55 munud 41eiliad; 86ain, Allen Watts 1 awr 21munud.

Chwech milltir oedd ras y Ddau Fryn yn Tegryn; ail, Carwyn Thomas 42 munud a 3 eiliad; 6ed Lyn Rees, 50 munud 41 eiliad; 10fed, Caryl Davies 55 munud 51 eiliad. Caryl Davies oedd enillydd ras y menwyd agored ac enillwyd y tîm gan Carwyn Thomas, Lyn Rees a Caryl Davies.

Hanner marathon Llyn Vyrnwy; Glyn Price 1 awr 16 munud 21 eiliad; Tony Hall 1 awr 29 munud 48 eiliad; Huw Price 1 awr 31 munud 5 eiliad; a Simon Hall 1 awr 33 munud.

Dydd Sadwrn aeth rhedwyr Sarn Helen i ras Apêl y Gors. Glyn Price yn ennill y ras dynion 40 27 munud 51 eiliad; 2ail Carwyn Thomas; 1af dynion agored, 30 munud 41 eiliad; 4ydd Richard Marks 1af dynion 50 31 munud 39 eiliad; 5ed a 3ydd dynion agored, Huw Rowcliff, 32 munud 50 eiliad; 7fed Simon Hall 32 munud 57 eiliad; 10fed a 3ydd dynion 50, Murray Kisebee 34 munud 15 eiliad; 12fed a 1af menywod agored, D Jolly, 35 munud 10 eiliad; 13eg - Geithin Jenkins 35 munud 36 eiliad; 14eg - Andrew Edgell 35 munud 37 eiliad; 15fed - Eric Rees 35 munud 47 eiliad; 16eg - Peter Dvies 36 munud 24 eiliad; 17eg - Gareth Jones 36 munud 34 eiliad; 18fed - Lyn Rees 37 munud 9 eiliad; 21ain a 3ydd menywod agored Caryl Davies 40 munud 1 eiliad.

Yn drydydd nôl yn ras 800m y plant oedd Tomos Jones o'r clwb, 3 munud 45 eiliad; ac yn ras 1500m ysgol gynradd, yn 2ail Thomas Willoughby, 6 munud 57 eiliad; a cyntaf yn ras y marchod, LLeucu Ifans 7 munud 7 eilad; 2ail Sara Jones 7 munud 24 eiliad; 3ydd Tanwen Owens 7 munud 33 eiliad; 4ydd, Sophie Herron 8 munud 8 eiliad. Ras merched dan 16 1af Lowri Jones 9 munud 21 eiliad.

Mae rhai o'r rhedwyr yn mwynhau cystadlu mewn gwahanol fath o rasus. Y mis hwn aeth Lyn Rees i'r ras 'Source of the Severn'; Caryl Davies i Dyfi 8, Jan a Gareth Jones i Hay on Wye; Mark Dunscombe i'r 'Great North Run'; a David Thomas i'r marathon yn Berlin. Cafodd Carys Davies ei dewis i rhedeg i dîm Cymru yng Nghystadleuaeth y Gymanwlad, yn Cumbria.

A'r ol i'r clociau i droi nôl ar ddiwedd mis Hydref, bydd clwb y plant a'r oedolion yn cwrdd yn y Ganolfan Handden yn Llambled am 6-15 yh..

Colofn y C.Ff.I.



Ceredigion

Yn ystod penwythnos olaf mis Awst, bu Daniel Downes, Cadeirydd y Sir, Arwel Jones, Is-gadeirydd y Sir ac Emyr Evans, Ffermwr Ifanc y Sir yn beicio 150 o filltiroedd wrth fynd o glwb i glwb er mwyn codi arian tuag at Sioe'r Cardis 2010. Dechreuwyd eu taith yn Nhalybont a chawsant gwmni rhai o aelodau'r Sir ar hyd eu taith cyn gorffen yng Nghlwb Rygbi Aberaeron.

Llongyfarchiadau mawr i Menna Davies o glwb Dihewyd a ddaeth yn ail fel Stockmon Hÿn yn Stoneleigh yn ddiweddar.

Mynychodd nifer o aelodau'r Sir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cymru a gynhaliwyd eleni yn Ninbych y Pysgod. Cafwyd penwythnos llawn hwyl. Llongyfarchiadau i Enfys Evans, Llanddeiniol ar gael ei hethol yn Is-gadeirydd y mudiad yng Nghymru.

Clwb 200 Mis Awst: Alan Morgan, Llwynbedw, Falcondale Drive, Llambled, Gareth a Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Mary Davies, Llys yr Haul, Heol y Dŵr, Llanon. Mis Medi: C.Ff.I. Talybont, C.Ff.I. Llanwenog, C.Ff.I. Pontsian.

Blaenrhybudd o Ddigiwyddiadau'r Sir: 1-2 Hydref - Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg, Theatr Felinfach, 14 Hydref - Hyfforddiant Barnu Stoc, 29 a 31 Hydref - Eisteddfod y Sir, Prifysgol Llambled, 9 Tachwedd - Cwis Iau'r Sir, 16 Tachwedd - Hyfforddiant Barnu Carcas, 26 Tachwedd - Cwis y Sir.



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyd ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog

Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Arnold Davies
Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbedr


☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Lle aeth pawb?



Tynnwyd y llun hwn o ddisgyblion Ysgol Dolgwm, Pencarreg ar ddechrau'r 50au cynnar. Mae'r ysgol wedi hen gau ond atgofion mwyaf pleserus sydd gan bawb o'r dyddiau ar y bryn lle cawsant eu trwytho yn y 3R's, y cinio blasus bob dydd, y teithiau chwila byd natur, ac yn cwrsu'r llall yn hela cadno hyd y caeau a chyrraedd 'nôl ar iard yr ysgol wedi amser mynd adref yn aml. Ie, dyddiau plentyndod yn llawn hwyl a heb un gofid yn y byd.

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



Llanfihangel-ar-arth

Y ffurf gynharaf ar enw'r eglwys yw Llanvyhangel Orarth yn 1291; 'gor' a 'garth' yw'r elfennau sy'n dilyn enw'r archangel gan roi'r ystyr 'eglwys Mihangel ar allt uchel'. O'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, mae'n ymddangos bod grym ac ystyr 'gorarth' wedi colli a thybiwyd mai enw dyn a ddylai fod yma. O hynny ymlaen mae ffurfiau fel Llanfihangel Iorath yn digwydd; ffurf ar Iorwerth yw Iorath. Yn ystod y 19eg ganrif yr ymddangosodd yr elfen 'ar' yn yr enw am y tro cyntaf a'r ffurf Llanfihangel-ar-arth a arddelir bellach gan yr Arolwg Ordians a'r Awdurdod Lleol.

Mae Dolioeth yng Nghaerwedros ac mae Ioreth a Ioroth yn ffurfiau amrywiol ar Iorath (Iorwerth). Yr hyn sy'n anodd penderfynu yw hyn: A yw'r enw personol Ioreth yn cyfeirio at berson penodol (o bosibl Isaac Yerwarth a drigai yn Arthach, Caerwedros) gan fod Dolioeth ar un adeg yn rhan o fywoliaeth Llanfihangel-ar-arth yn Sir Gaerfyrddin, neu a yw'n gysylltiedig â pherson arall na wyddom ddim byd amdano.

Mae Iolo a Iolyn yn ffurfiau anwes ar Iorwerth. Daethpwyd, dros ganrifoedd, i arddel Edward yn ffurf gyfwerth â Iorwerth. Amrywiad arall cysylltiedig yw Yorath, cyfenw sy'n digwydd yn gyffredin yn siroedd Henffordd a Chaerloyw ac yn Sir Fynwy. Mae Yorath yn gyfenw sy'n adnabyddus ymysg holl ddilynwyr y bêl gron yng Nghymru.

Ond i ddychwelyd at yr elfen gyntaf yn yr enw. 'Llan' yw'r elfen fwyaf cyffredin o ddigon mewn enwau lleoedd yng Nghymru. Mae tuedd erbyn hyn i dderbyn mai unig ystyr 'llan' yw 'eglwys' am fod enw sant yn dilyn 'llan' yn aml iawn. Ond mewn cyfnod cynharach, un ystyr i 'llan' oedd darn o dir wedi'i gau ar gyfer tyfu cynnyrch neu i gadw eiddo. Mae'r ystyr honno'n dal mewn enwau megis 'coedlan', 'ydlan', 'perllan', 'corlan'. Datblygiad o'r ystyr hon yw 'darn o dir cysegredig, mynwent, eglwys'. Mae cysylltiad hefyd rhwng y gair Cymraeg 'llan' a'r gair Saesneg am dir, sef land.

Roedd Mihangel yn un o'r ychydig seintiau tramor a ddaeth yn wir boblogaidd yng Nghymru. Yn ôl traddodiad, Mihangel oedd arweinydd yr angylion 'da' yn eu buddugoliaeth yn erbyn yr angylion 'drwg' yn y nefoedd ers talwm.

Yng Nghymru mae o leiaf 45 o eglwysi wedi'u cysegru i Mihangel. Er mwyn gwahaniaethu rhwng y gwahanol eglwysi hyn a'i gilydd ychwanegwyd elfen arall at yr enw: Llanfihangel Rhos-y-corn, Llanfihangel Aberbythych, Llanfihangel Abercywyn, Llanfihangel Lledrod, Llanfihangel Cil-y-cwm, Llanfihangel Llechryd, ac wrth gwrs Llanfihangel-ar-arth.

Dethlir Gŵyl Fihangel ar 29ain o Fedi ac un o'r traddodiadau sy'n gysylltiedig â'r wyl yw na ddylid casglu mwyar duon wedi'r dyddiad hwn gan fod y Diafol yn ymyrryd â'r mwyar ar y dyddiad hwnnw. Roedd y Diafol yn arfer bod yn un o'r angylion ond pan gafodd ei droi allan o'r nefoedd gan yr Archangel Mihangel, fe ddisgynnodd i ganol y drain a gwaedu. Bob blwyddyn ers hynny ar Wyl Fihangel daw'r Diafol i boeri, neu i bisio, ar y mwyar duon.

Mae llawer o'r farn mai'r hen Wyl Fihangel, sef 10 Hydref, yw'r dyddiad cywir i roi'r gorau i gasglu mwyar duon. Ond pwy, tybed, a fyddai'n ddigon dewr i fentro blasu mwyaren o'r clawdd ar ôl 29 Medi?

Cyn cau dychwelwn at Lanfihangel Lledrod. Mae'r enw Lledrod yn cael ei gofnodi am y tro cyntaf yn 1284. A'r elfennau yn Lledrod yw 'lled' sef hanner cylch a 'rhod' a all ddynodi naill ai tarian gron neu olwyn. Y tebyg yw mai cyfeirio at gaer neu dwmpath gaerog sydd ryw hanner milltir o'r eglwys, sef Llanfihangel Lledrod, a wna'r enw.

Y tro nesaf, byddwn yn ystyried yr enwau Llan-y-crwys a Llanybydd

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas, Clerc: Wenella Evans, Cynghorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar 8 Medi 2009

Penderfynwyd bod y clerc i hysbysu'r Cyngor Sir bod angen arwydd newydd yn Drefach. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cymryd rhan mewn cynllun prawf i ymateb i geisiadau cynllunio yn electronig.

Bwriedir cynnal Noson Agored yng nghwmni Mr Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion, i drafod tai fforddiadwy. Roedd Archwiliad y flwyddyn a aeth heibio wedi'i gwblhau'n llwyddiannus.

Penderfynwyd y byddai'r cadeirydd a'r clerc yn cynrychioli'r Cyngor yng Nghyfarfod Blyneddol Un Llais i Gymru ym Mhontrhydfendigaid ym mis Hydref. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 20 Hydref.

Cyngor Bro Pencarreg

Cadeirydd: Eiddig Jones, Clerc: Eric Williams, Cynghorydd Bro a Sir: Eirwyn Williams, Cynghorydd Sir: Fiona Hughes. Cyfarfu'r Cyngor ar 7 Medi 2009

Mae'r Cyngor Sir wedi cymeradwyo'r ceisiadau cynllunio canlynol: Dau dŷ i'w hadeiladu ger Tan-y-fron, Pencarreg. Porth newydd yn Brynrysgol, Esgairdawe. Llinell 11Kv newydd ger Lluet.

Mae gwaharddiad torri coed wedi'i osod ar y rhodfa o goed ffawydd ger Brynmawr.

Ailgylchu. Bu'r clerc yn gweld y Sioe Deithiol yn Llanymddyfri a oedd yn egluro cynllun ailgylchu newydd Sir Gaerfyrddin.

Holiadur. Ilanwyd holiadur ar Safon Tai Sir Gaerfyrddin.

Derbyniwyd cwynion fod yr hewl o Barc-y-rhos i Gellidewi nawr yn ofnadwy o wael, a'i bod yn hen bryd i'r Cyngor Sir gadw at ei addewyd i'w ail darmacio. Mae'r gwter ger Gellifelen hefyd yn gorlifo ac yn achos gofid.

Cyngor Tref Llambod

Maer: Selwyn Walters, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 27 Awst 2009 yn Festri Capel Shiloh, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer ac offrymwyd gweddi gan y Cyng Margaret Davies.

Bu trafod ar yr effaith a gâi sefydlu parth di-alcohol yn y dref. Gobaith rhai o'r cynghorwyr oedd y byddai'r Gorchymyn wedi bod yn llymach. Nodwyd bod Gorchymyn tebyg wedi bod yn effeithiol yn Aberystwyth. Ni fyddai yfed alcohol yn y parth di-alcohol yn drosedd; y drosedd, yn hytrach, fyddai gwrthod cais i ymatal rhag yfed a/neu gwrthod ildio'r alcohol. Daw'r Yngynghori Cyhoeddus i ben ar 30 Medi.

Nodwyd y bydd Mrs Morfudd Slaymaker yn cyflwyno cyfarchion dinesig ynghyd â llech briodol i Faer y Gaiman ar ei hymweliad nesaf â'r Wladfa.

Trafodwyd anawsterau parcio a thrafnidiaeth yn y dref. Byddai Cyngor Ceredigion yn ceisio gwella mynediad i fsysys a lorïau trymion i Faes Parcio'r Rookery. Cefnogwyd cais Cyngor Ceredigion i gyfyngu ar amodau parcio ar y Cwmins. Roedd Cyngor y Dref wedi cytuno ar gynllun trafndiaeth ar gyfer Lôn Picton. Cefnogodd y cyngor gais am groesfan ar Ffordd y Gogledd.

Cyflwynwyd manylion am wefan newydd y Cyngor. Pennwyd 21 Medi yn ddyddiad cau tendro am y gwaith.

Trafodwyd diffodd goleuadau stryd rhwng canol nos a 5.00 y bore. Byddai nod melyn yn cael ei osod ar y goleuadau a fyddai'n cael eu diffodd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 25 Medi yn Neuadd Eglwys San Pedr.

Cyngor Cymuned Llangybi

Cadeirydd: Cyng D. Jones.

Cyfarfu'r cynghorwyr ar Orffennaf 29ain yn y Neuadd Goffa.

Roedd caniatâd cynllunio wedi ei rhoddi i adeiladu tri annedd ar dir Tŷ Gwyn, Llangybi ac i dŷ a charafan ger Haulfryn ym Mhont Creuddyn. Derbyniwyd gwybodaeth fod yr heol ger Gorwydd yn Llanddewi ar gau rhwng 10fed o Awst a 31ain o Awst a'r heol o Lanfair i Langybi rhwng 7fed o Fedi hyd 5ed o Hydref. Cafwyd llythyr yn dweud fod yna gymorth i gael er mwyn derbyn teledu Digidol. Diolchwyd i Mr a Mrs Graham Williams am eu gwaith yn gofalu a gwella'r amgylchedd yn enwedig yng nghyffiau Capel Cilgwyn a hefyd i'r ddwy wraig fu yn glanhau'r cysgodfannau bysiau. Gadawyd penodi llywodraethwyr i Ysgol Y Dderi hyd y cyfarfod nesaf. Derbyniwyd llythyr yn mynegi pryder am y sibrydion ynglŷn â chynlluniau honedig yn ymwneud â pharcio ger Ysgol Y Dderi. Derbyniwyd cwyn fod yna rhai trigolion yn rhoddi eu sbwriel allan ar nos Lun ac erbyn dydd Mawrth, diwrnod y casgliad mae'r sbwriel wedi'i wasgaru. Roedd y 'trailer' ger Maslyn yn peri gofid. Derbyniwyd holiadur a chyfrifoldeb perchnogion cŵn. Mae'r broblem wedi gwella ond yn dal i achosi trafferth mewn rhai mannau. Derbyniwyd holiadur oddi wrth 'Defo' i'w ateb ar y we. Etholwyd y Cyng Keith Edwards fel Is-gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf.

Gorsgoch

Apêl y Gors

Cynhaliwyd wythnos o godi arian tuag at Uned Ddyddiol Chemotherapy Ysbyty Glangwili yng Ngorsgoch rhwng y 13eg a'r 19eg o fis Medi. Efallai bod rhai ohonoch yn cofio i ni gynnal wythnos o'r fath nôl yn 1999, i ddiolch i'r Uned am eu gwaith ardderchog. Gan fod deng mlynedd ers yr Apêl cyntaf, roeddem fel pentref yn teimlo y dylem gynnal Apêl y Gors eleni eto, er mwyn dangos i'r Uned ein bod o hyd yn gwerthfawrogi y gwaith gwych maent yn gwneud.

Dechreuodd yr wythnos yng Nghapel Brynhafod, lle cawsom Gymanfa Ganu fythgofiadwy. Roedd y capel bach yn llawn dop, a'r canu yn wefreiddiol. Yn cadw trefn arnom ac yn arwain y noson oedd Mrs Elonwy Davies. Yn cyfeilio roedd Miss Carys Evans, ac artistiaid y noson oedd Côr Lleisiau'r Werin o dan arweiniad Elonwy. Clywyd hefyd rhai artistiaid lleol yn canu: Cwmni'r Gors a Bois y Bolie. Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Wyn Morgans, Pensarnau. Wedi'r holl ganu, roedd syched ar bawb, felly nol a ni i Gefn-hafod i lychu'r big, ac i gael tipyn o fwyd.

Yng Nghefn-hafod ar nos Fercher yr 16eg, cafwyd noson lwyddiannus arall, lle cynhaliwyd noson o Rasmus Parlwr. Eto, daeth llond lle i'n cefnogi, ac roedd y tafarn yn fwrlwn, gyda phawb yn betio ac yn gamblo ar eu ceffylau, tra'n mwynhau yng nghwmni ein gilydd.

Gweithgaredd nos Wener y 18fed oedd, Eisteddfod Ddwl ar gaeau fferm Glwydwern. Daeth pump tîm i'r babell i gystadlu yn erbyn ei gilydd, sef C.Ff.I Pontsiân, Côr Cardi-Gân, Llefarywyr Sarn Helen, Staff a Rhieni ysgol Cwrtnewydd a C.Ff.I Llanwenog. Bu cystadlu brwd mewn cystadlaethau yn amrywio o ddeuawd doniol, stori sain, unawd o dan 5 oed, i gôr lleianod ac arwerthwyr, ac yn fuddugol ar ddiwedd yr Eisteddfod roedd tîm Sarn Helen. Cafwyd seremoni gadeirio, a bardd y gadair oedd Meinir Ebbsworth. Ein beirniaid oedd Mr Ifan Gruffydd, Tregaron a Mr Euros Lewis, ac arweinydd y noson oedd Pete Ebbsworth. Noson i'w chofio oedd hon, llawn chwerthin a dwli. Eisteddfod ar ei newydd wedd!

Pinacl yr wythnos oedd dydd Sadwrn y 19eg, lle cawsom gefnogaeth cryf unwaith eto. Cynhaliwyd gweithgareddau amrywiol; râs hwyl, chwaraeon potes, cornel y plant, peintio wynebau, coets, ac it's a knock out. Enillwyd y knock out oedd tîm Tanrhos. Daeth Sali Mali, Coblyn, Sam Tân a'r Frigâd Dân i'n cefnogi hefyd! Cawsom arwerthiant mawreddog ar ôl yr holl weithgareddau uchod, lle gwerthwyd llond trol o eitemau amrywiol yn rhoddedig gan

fusnesau ac unigolion lleol. Roedd yr eitemau yn amrywio o blatiau unigryw Apêl y Gors, i docynnau rygbi rhyngwladol, i gynyrch bwyd, i englyn wedi ei fframio a llawer llawer mwy! Yna, i orffen y diwrnod mewn steil, gig gyda Gwibdaith Hen Frân a Newshan. Roedd y babell yn bownsio, a phawb yn dawnsio ac yn canu, ac yn dathlu llwyddiant yr wythnos.

Yn wir, bu'r wythnos yn lwyddiant ysgubol, lle codwyd tua £34,000. Dydy'r gronfa heb gau eto, felly amhosib yw cyhoeddi ffugwr pendant. Hoffai'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb wnaeth gyfrannu, helpu a chynorthwyo mewn unrhyw ffordd, i wneud wythnos Apêl y Gors yn bosib ac yn lwyddiant.

Canlyniadau'r Râs Hwyl: 800m o dan 8 oed: Bechgyn - 1af -Iestyn Owens; 2ail -Tomas Jones; 3ydd -Dafi Jones, Merched - 1af -Rachel Priddy; 2ail -Nia Morgans; 3ydd -Beca Jenkins, 1500m i blant ysgol Gynradd: Bechgyn - 1af -Iwan Evans; 2ail -Tomas Willowby; 3ydd -Rhys Ebenezer, Merched - 1af -Lleucu Ifans, 2ail -Sara Jones; 3ydd -Tanwen Owens, 1500m o dan 16: Bechgyn - 1af -Teifion Davies; 2ail -Llyr Ebenezer; 3ydd -Guto Morgans, Merched - 1af -Lowri Jones; 2ail -Meinir Davies; 3ydd -Gwawr Hatcher, 5 millir i oedolion: Dynion agored - 1af -Carwyn Thomas; 2ail -Richard Simson; 3ydd -Huw Rowcliffe, Menwod agored - 1af -Dee Jolly; 2ail -Sian Roberts Jones; 3ydd -Caryl Davies, Dynion rhwng 40-50 -1af -Glyn Price (y cyflymaf, a'i amser oedd 27.51); 2ail -Gareth Jones; 3ydd -Tony Herron, Dynion dros 50 -Richard Marks; 2ail -Gordon Orme; 3ydd -Murray Kisbee, Menywod rhwng 35-45 -1af -Rhian Jones; 2ail -Wendy Evans; 3ydd -Geradline Worth, Menywod dros 45 - 1af -Jane Wilkins; 2ail -Ruth Kisbee.

Cwmsychpant

Diolch

Dymuna Elwyn a Mair, Maesymeillion, Dryslwyn ddiolch yn gynnes i Dylan a Rhian am drefnu'r parti ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch o galon hefyd i bawb am yr anrhegion, y cardiau, y galwadau ffôn a'r holl dymuniadau da. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm nos Iau, 15fed o Hydref am 7:30y.h. Pregethir gan Delyth Morgans o Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb.

Penblwydd Arbennig

Yn ystod mis Medi dathlodd John Jones, Penrheol benblwydd arbennig. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod.

O Siambr Sir Gâr gan Pryfyn

Mae tymor arall o drafod wedi ailgychwyn yn y Siambr a gallai fod yn fuddiol ar ddechrau tymor newydd i ystyried aml i her y bydd rhaid i'r Cyngor ei hwynebu. Yr her fwyaf wrth gwrs yw ceisio ymddiriedaeth trethdalwyr Sir Gaerfyrddin.

Chwe mis yn ôl, y datganiad a roddwyd gerbron Panel Dinasyddion Sir Gâr oedd hyn: 'Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn rhoi gwerth eu harian i drigolion y sir'. 2% yn unig o'r rheini a holwyd a fentrodd roi eu llaw ar eu calon a dweud eu bod nhw'n bendant o blaid y gosodiad hwnnw. Ond dyma glywed cyn diwedd mis Mai i Ms Meryl Gravell a Pholitbiwro Sir Gâr benderfynu dosbarthu lwfansau newydd er mwyn diogelu pleidleisiau aelodau roedd eu teyrngarwch yn gwegian yn y Siambr. Dyma ddechrau, am y tro cyntaf, dalu lwfans fras o bwrs y trethdalwyr i'r is-gadeiryddion – a phob un wan jac o'r is-gadeiryddion yn Annibynnwr-Llafur, wrth gwrs. Ac mae'r rheolau'n caniatáu hyn - am mai'r Politbiwro sy'n gosod y rheolau yn Sir Gâr.

A dyma glywed ym mis Medi fod nifer y swyddogion sy'n derbyn cyflog o £80,000 gan y Cyngor wedi cynyddu o 8 rhwng 2006/07 a 2008/09. Ac at hyn mae 5 o uwchswyddogion y Cyngor yn derbyn dros £100,000 o gyflog yn flynyddol erbyn hyn. Cynyddodd cyflog y prif swyddog o £26,000 dros y tair blynedd ddiwethaf – o £134,000 i ryw £170,000 eleni. Ond y cynnydd cyflog a gynigir i'r gweithwyr cyffredin sy'n gorfod trafod wyneb yn wyneb â'r trethdalwyr yw 0.5%. Petai'r cynnig o 0.5% wedi ei wneud i'r prif gorgi, byddai ei gyflog wedi cynyddu o ryw £750!

Ac mae hyn i gyd yn digwydd ar adeg pan yw Meryl Gravell wedi deddfu y bydd toriadau o hyd at £6m yn digwydd yn y gwasanaethau a'r swyddi a gynigir gan y Cyngor – casglu sbwriel, gwaith cynnal a chadw ar adeiladau cyhoeddus, hamdden. Dyma feysydd y gweithwyr ar lawr gwlad, ac wrth ddesg swyddfa mae nhw'n cael cynnig cynnydd o 0.5%. Ni chrybwyllir yr un swyddog na'r un is-gadeirydd ar y restr toriadau. Y gwas bach sy'n colli'r geiniog gan Gyngor Sir Gâr bob cynnig. A ydy hyn yn egwyddorol?

Gofid arall a gododd y mis hwn yw bod Meryl Gravell am wario, fe sibrydir, hyd at £600,000 o arian y trethdalwyr i sefydlu sianel deledu ar y rhyngwrdd. Ychydig iawn o wybodaeth am hyn sydd ar gael, ac mae hynny'n bryder ychwanegol i ni drethdalwyr. Mae'n hysbys fod Cyngor Sir Gâr yn gwario mwy ar hyrwyddo'i hunan na chynghorau eraill, ond a Meryl Gravell yn son yn ddi-baid am ddiffyg arian gan y Llywodraeth, pam penderfynu cynyddu gwariant diangen? A ydy hyn yn egwyddorol â swyddi sylfaenol dan fygythiad?

'Gwella ein ffordd o fyw ac o weithio' yw'r datganiad o genhadaeth sydd gan y Cyngor. Gofal am Gynllun Gwella Sir Gâr yw un o brif gyfrifoldebau M/s Meryl Gravell ar y Bwrdd Gweithredol. Faint o'r rheini sy'n wynebu ansicrwydd parthed eu cyflogaeth fyddai'n honni bod M/s Meryl Gravell yn cyflawni ei gwaith â graen? Llawer llai na 2% waranta i.

Gwefannau Cymunedol Lleol:

Ardal Cymunedol Llanybi: www.llanybi.org.uk

Capel Bethel Parcyrrhos: www.bethel.btik.com

Clwb Cledlyn: www.clwb-cledlyn.org.uk

Clwb Moduro Llambled a'r ardal: www.ldmc.org.uk

Clwb Rygbi Llambled: www.clwbrygbiillambled.org

Côr Cardi-Gân: www.corcardi-gan.com

Côr Meibion Cwmann: www.corewmann.btik.com

Côr Merched Côrisma: www.corisma.btik.com

Ffarmers: www.ffarmers.org

Llanllwni: www.llanllwni.co.uk

Llanybydder: www.llanybydder.org.uk

Menter Llambled: www.lampeter.org

Papur Bro Clonc: www.clonc.co.uk

Plwyf Llanwenog: www.plwyfllanwenog.com

Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan: www.llambled.ac.uk

Y Ford Gron Llambled: www.lampeterroundtable.org.uk

Ysgol Carreg Hirfaen: www.ysgolccc.org.uk/hirfaen

Ysgol Cwrtnewydd: www.cwrtnewydd.ceredigion.sch.uk

Ysgol Ffynnonbedr: www.fffynnonbedr.ceredigion.sch.uk

Ysgol Llanwenog: www.ysgol-llanwenog.com

Ysgol y Dderi: www.ydderi.ceredigion.sch.uk

Os am ychwanegu at y rhestr, anfonwch ddolen at cadeirydd@clonc.co.uk

Cwrtnewydd



Cyflwyno elw'r daith gerdded sef £4837.56 i Ymchwil Cancer Cymru.

Llongyfarchiadau

Iechyd da i Elgan Jones, Tycerrig a ddatlodd ei benblwydd yn ddiweddar yn 70oed.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Peter a Jean Griffiths, Fronddu ar gael wyres fach newydd, Ela Mablen merch fach i Carys a Kevin yn Aberaeron.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â James ac Olga Thomas a'r teulu, Brynderw ar golli mam, mamgu a hen-famgu sef Mrs Hannah Jane Thomas o Rhydowen.

Ysgol Cwrtnewydd

Croesawyd pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau haf gwlyb. Cafwyd wyth disgybl newydd i'r ysgol ac erbyn hyn maent wedi setlo i fewn i fywyd prysur yr ysgol.

Dros y gwyliau cafwyd dipyn o lwyddiant yn y sioeau lleol gyda nifer o'r plant yn ennill gwobrau. Sioe Cwmsychpant – Paentio Llun – Blwyddyn 2 a thano – Cydradd 1af Libby Waterman a Madeleine Smith; 2il Catrin Schröder.

Blwyddyn 5 a 6 – Cydradd 3ydd Charlotte Turvey a Stephen Hyde. Llawysgrifen – Blwyddyn 5 a 6 – 1af - Luned Jones; 3ydd Meinir Davies. Llawysgrifen Blwyddyn 3 a 4- 2il Cerys Pollock. Sioe Gorsgoch – Peintio Llun – Blwyddyn 2 a thano – 2il Alaw Jones Blwyddyn 3 a 4 – 3ydd Aaron Gibbons, blwyddyn 5 a 6 - 2il Meinir Davies; cydradd 3ydd Stephen Hyde a Luned Jones. Llawysgrifen - Blwyddyn 5 a 6 – 1af Meinir Daves; 3ydd Iwan Evans.

Croeso cynnes i Mrs Gwyneth Davies yn ôl i'r ysgol mae'n dychwelyd fel aelod o staff yma yng Nghwrtnewydd.

Rydym erbyn hyn yng nghanol bwrwm y tymor; mae'r plant wedi bod ynghlwm â'r Cynllun Tri Pwnc, a braf yw croesawu ysgol Llanwenog yn ôl mewn i'r fenter.

Bu'r plant yn brysus yn ethol ein Cyngor Ysgol. Aelodau'r pwyllgor am y flwyddyn 2009 – 2010 yw Cadeirydd Iwan Evans; Is-Gadeirydd Rhys Davies; Ysgrifenyddes Cerys Pollock; Trysoryddes Briallt

Williams a cynrychiolwyr o gyfnod allweddol un yw Hanna Davies a Beca Jenkins; cynrychiolwyr o gyfnod allweddol dau yw Kiera Cashel ac Elin Davies.


Bu staff, rhai o rieni a ffrindiau'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Ddwl Apêl y Gors. Cafwyd dipyn o hwyl a sbri.

Aeth dau dîm pêl-droed yr ysgol i gystadlu mewn twrnament 5 bob ochr yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llanbedd. Cafodd y bechgyn gryn dipyn o hwyl yn ceiso efelychu eu harwyr.

Cofiwch am datws Cwrtnewydd. Rydym wedi cynhaeafu'r tatws a dyfwyd gan y clwb garddio. Os ydych am brynu 2Kg am £1, rhowch wybod i ni yn yr ysgol.

Cynhelir ein Cwrdd Diolchgarwch ar Hydref 22ain am 1.30y.p yn neuadd yr ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Cydnabyddir cefnogaeth



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Clwb Clonc

Hydref 2009

£25 rhif 175:

Mrs Nans Evans,

Dôl-hardd, Drefach.

£20 rhif 420:

Llion a Meirion Thomas,
Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog,
Llambled.

£15 rhif 339:

Mrs Eryl Jones,
Gerlan, Greenfield Terrace,
Llambled.

£10 rhif 308:

Osian Rhun Jones,
Araul, Heol Caerfyrddin,
Cwmann.

£10 rhif 81:

Mrs Alice Davies,
Alwyn, Llanwnnen.

£10 rhif 46:

Verona Davies,
Arffon, Llanybydder.

Drefach a Llanwenog

Eglwys Santes Gwenog.

Ar Fedi'r ail cynhaliwyd noson o fawl arbennig i ganu hoff emynau'r Parch Bill Fillery. Bydd y Ficer yn ymddeol ar ddiwedd Ionawr 2010, felly manteisiwyd ar y noson i gyfleu ein gwerthfawrogiad iddo am ei ofal a'i wasanaeth di-flino yn ystod y chwe mlynedd y bu'n offeiriad yn y plwyf. Er ein tristwch i'w golli dymunwn ymddeoliad hapus iddo ef a'i briod Elizabeth. Da yw deall y byddant yn ymddeol i Lamed, felly rwy'n siwr y cawn eu cwmni o bryd i'w gilydd. Yn bresennol roedd Côr Meibion Cwmann, Côr Lleisiau'r Werein a'u harweinydd Mrs Elonwy Davies. Cafwyd eitemau safonol iawn gan Kees Huysmans, baritone, Gwawr Jones, Telynores a datganiad hyfryd ar yr Organ gan y Canon Chris Bolton. Wedi noson hwylus o ganu mwynhawyd lluniaeth ysgafn i gwblhau noson bleserus iawn. Talwyd y diolchiadau gan y Warden, Mrs Nia Evans.

Yn ystod Mis Awst priodwyd Carol Sisto, Gorsgoch a Christopher Watson, Penybont-ar-Ogwr; ac hefyd Helen Roberts, Rhodfa Glyn Hebog, a David Rice o Winchester. Llongyfarchiadau a phob hapusrwydd i'r ddau gwpwl.

Bedyddiwyd ar ddechrau Mis Awst, Benjamin Richard Brian Herbert, Bwthyn y Saer, Llanybydder. Yna Steffan William Hedd, mab Richard a Catrin Jarman, Araul, Llanwnnen. Pob bendithi'r ddau deulu.

Cydymdeimlwn â Mrs Gillian Lewis ar golli ei chwaer Mrs Mary Thomas, 31 Heol y Bont, Llamed. Cydymdeimlwn hefyd ag Hyw Davies, Ornant Llanwnnen ar farwolaeth ei briod Eva. Bu Eva'n weithgar dros ben ar hyd ei hoes yn ei phentref genedigol sef Drefach, ac yn ddiwyd ym myd yr Eglwys a'r Ysgol. Gwelir ei heisiau.

Dymunwn wellhad buan i Moira Bone, a Mrs Glenys Davies, Derwenlas Llanybydder.

Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i Mrs Margaret Evans, Felinfach, cyn athrawes am 25 o flynyddoedd yn Ysgol Llanwenog. Cafwyd prynhawn hwylus iawn ar y 12fed o Fedi pryd y derbyniodd anrhegion gan y Pwyllgor Rhieni ac Athrawon ac yn ychwanegol fei hanrhydeddwyd â phlât 'Halen y Ddaear' gan Alwyn Humphreys o S4C. Yr oedd Mrs Evans yn barchus iawn gan y Llywodraethwyr, Rhieni â'r Plant, amlygwyd hyn yn y teyrngedau lu dderbyniodd yn ystod y dydd. Cafwyd gwledd o ddanteithion mewn pabell ar y cae chwarae i gwblhau diwrnod pleserus iawn.

CLWB 100 Gorffennaf. £15 – Mary Thomas, Ffosffald, £10 – Charlie Butcher £5. – Margaret Roberts. Awst

£15 – Miriam Butcher, £10. – Lucy Fillery-Murphy, £5.- Nancy Fillery. Medi £15 – Miriam Butcher, £10 – Val Thomas, Llanllwni, £5.- Beryl Lewin, Harlech Drefach.

Y Gymdeithas Hŷn

Mae tymor teithiau'r haf wedi dod i ben am eleni, ac ymweliad ag Abertawe oedd y trip olaf. Gan ei bod yn ddiwrnod mor braf, penderfynwyd cael tua pedair awr i wagio'r pocedi, ac yna awr a hanner ar lan y môr yn y Mwmbwls. Teithio nôl i Bronwydd am swper, a chael pryd blasus yn Nhafarn Nantygelynnen.

Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor y gaeaf dydd Mercher, Hydref 14eg yn Festri Seion, Cwrtnewydd am 1.30 yp, a hwnnw'n Gyfarfod Blynnyddol.

Cyrrddau Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Bethel nos Fercher, Hydref 7fed am 7y.h, a'r Parch. Elwyn Jenkins, Llamed yn pregethu.

Y nos Fawrth ganlynnol, Hydref 13eg, Cwrdd Diolchgarwch Brynteg am 7y.h, a'r Parch. Cen Llwyd yn gwasanaethu.

Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig Llanwenog

Ar ddechrau tymor yr Hydref croeso nôl i Katie Brown i'r Adran Iau. Hefyd hoffwn estyn croeso i Mrs Ceri Gruffydd, Cwrt Ffarm fel aelod newydd o'r adran dysgu. Gobeithio'n fawr y byddwch yn hapus yn ein plith.

Ar brynghawn heulog o Fedi cynhaliwyd parti fel arwydd o werthfawrogiad i Mrs Margaret Evans am bum mlynedd ar hugain o wasanaeth i Ysgol Gynradd Llanwenog. Ar ran y Llywodraethwyr, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at llwyddiant y dydd. Bu nifer fawr o bobl ynghlwm wrth y paratodau er sicrhau diwrnod bythgofiadwy i Mrs Evans. Braf oedd gweld cynifer o gyn ddisgyblion a chyn rieni wedi dod ynghyd i ddangos teyrnged iddi. Un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd iddi gael ei anrhydeddu gyda phlat 'Halen y Ddaear' gyda thîm rhaglen deledu 'Wedi Tri', Eisir ar y gacen yn wir!

Bu nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn llwyddiannus eleni eto yn Sioe Gorsgoch. Mae'r llwyddiannau fel a ganlyn:- Peintio llun dan 5 1af : Luke; 3ydd: Molly Greenfield, Peintio llun Blwyddyn 1 & 2 1af: Dafydd Lloyd, 2il: Emma Herbert; 3ydd: Sioned Fflur Davies. Peintio llun Blwyddyn 3 & 4 Gwobr Arbennig: Ffion Evans. Peintio llun Blwyddyn 5 & 6 1af: Rebecca McEnery. Llawysgrifen Blwyddyn 3 & 4 1af: Nancy Doyle, 3ydd: Delyth Ann Jones.

Am y tro cyntaf erioed roedd y

Sioe yn anrhegu yr ysgol gyda'r mwyaf o bwyntiau â tharian crand iawn ac yn dilyn canlyniadau uchod Ysgol Llanwenog a fu'n fuddugol eleni. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am eu haelioni.

Cynhelir ein 'Cwrdd Diolchgarwch' yn Eglwys Santes Gwenog ar brynghawn dydd Mercher, Hydref y 14eg am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau gwresog i holl ddisgyblion yr ysgol a fu'n llwyddiannus yn eu haroliadau TGAU a Lefel A yn ystod gwyliau'r haf. Dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

Cylch Meithrin Gwenog

Braf yw croesawu y plant bach newydd i'r cylch. Braf yw gweld eu bod wedi hen ymgartrefi erbyn hyn a'u gweld yn mwynhau amryw o weithgareddau yn y gofod allanol ac o dan do.

Ar nos Wener, Hydref 23ain cynhelir disgo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder i blant o bob oedran rhwng 6 – 8 o'r gloch. Bydd mynediad yn £1. Bydd y digwyddiad yn agored i holl blant yr ardal. Bydd y raffl fawr yn cael ei thynnu ar y noson hon. Tocynnau ar werth yn y Cylch neu ar y noson. Cefnogwch yn llu.

Digwyddiadau yn y dyfodol:
4.10.09: Ras Hwyl Ysgol Llanwenog. Plant 10.30 y.b.
Oedolion 11.00 y.b. (Ras 6 milltir).
Bydd lluniaeth ar werth ar safle'r Ysgol i bawb. 20.10.09: Cyfarfod Blynnyddol Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanwenog am 7.30 y.h.
11.11.09: Stondin Gacennau Cylch Gwenog tu allan i'r ysgol – 8.30 y.b.

Diolch

Dymuna Mrs Margaret Evans ddiolch yn ddiffuant i bawb fu'n gyfrifol am y parti bythgofiadwy a gafodd ei drefnu ar achlysur ei hymddeoliad fel athrawes o Ysgol Gynradd Llanwenog.

Mae hi a'r teulu yn gwerthfawrogi yr holl waith caled a ddigwyddodd o flaen llaw ac yn ddiolchgar i bawb a ddaeth i ymuno â hi ar y diwrnod.

Dymuna ddiolch hefyd i'r ardal gyfan am eu cyfeillgarwch ar hyd y flynyddoedd ac am y rhoddion a'r dysteb anhygoel a dderbyniodd. DIOLCH YN FAWR!

Cylch Meithrin Drefach

Cafwyd noson lwyddiannus iawn unwaith eto efo'r gwrthio gwely nodedig. Dechreuodd y daith tu allan i'r cylch a gorffen yn y Llew Du yn Llanybydder, lle cafwyd swper blasus. Diolch i bawb am bob cefnogaeth i sicrhau swm dda i'r gronfa.

Aethom am dro i Fferm Pili Pala, Felinwynt yn ystod y tymor ac hefyd i Fferm Ffoli.

Cynhaliwyd yr Wyl Feithrin eleni yn Felinfach yng nghwmni Martin Geraint a'i griw brwdfrydig. Joio mas draw!!

Pob lwc i Dewi Lloyd yn Ysgol Llanwenog a chroeso cynnes i'r cylch i Tomos Godfrey, Ryan Parsons, Ffion Morgan a Phoebe Prater.

Llanybydder

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau i Alpha Jones, The Grove, ar basio gradd 1 piano gydag anrhydedd.

Neidio Ceffylau

Llongyfarchiadau gwresog i Sara Evans, Waun, Llanybydder a fu'n cystadlu ym mhencampwriaethau neidio ceffylau Prydain Fawr i bobol ifanc ym mis Awst. Bu Sara yn cystadlu yng Nghanolfan "David Broom" Cricklands yng nghystadlaethau marchogaeth gan neidio i uchder 2 troedfedd 3 modfedd, a 2 troedfedd 6 modfedd o dan 12 oed. Llwyddodd Sara a Talgarreg Alice (y ceffyl) i ennill 5ed, 7fed a 10fed safle yn nosbarthiadau amrywiol. Mae ennill safle yn un o'r deg uchaf yn dipyn o gamp - gan ystyried fod 60 i 70 yn cystadlu yn y dosbarthiadau yn ei herbyn. Fe lwyddodd Sara i ddod yn wythfed yn ystod y pencampwriaethau i gyd. Hefyd, daeth Sara yn ail yn ddiweddar wrth gystadlu yng nghynghrair haf Celaeron. Camp aruthrol, a phob lwc i ti ar gyfer y dyfodol Sara.

Aberduar

Mewn Oedfa yn Aberduar yn ddiweddar cyflwynwyd rhodd gan ein gweinidog y Parch Jill Tomos ar ran yr holl aelodau i Rhiannon Lewis, Tanlan ar achlysur penblwydd arbennig iawn. Talodd deyrnged ddiffuant iddi am ei gwasanaeth wrth yr organ ers dros tri deg a phump o flynyddoedd. Edrychwn ymlaen am ei gwasanaeth eto am nifer fawr o flynyddoedd. Diolch Rhiannon.

Alltyblaca

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Cerys Lewis, 1 Bro Teify am basio caml ar y piano gyda theilyngdod a chael marciau llawn yn y theori.

Capel Undodaidd

Am 5.00 o'r gloch brynghawn Sul 18 Hydref cynhelir Cwrdd Diolchgarwch a phregethir gan y Parchedig Aled Jones o Langybi. Croeso cynnes i bawb.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref



**Torri a sychu, steilo a lliwio,
cwilo a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.**

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

Terry Jones



Ffotograffydd
www.terrywjones.co.uk

1 Cwrt Deri
Cwmann
Llanbedr Pont Steffan
01570 421 173
07970825724

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled

☎01570 423135

☎07811917799 /

07968821035

✉mwnciffwnci@hotmail.com

**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎01570 422955

☎01570 422232

Siop y Pentre Llanllwni

Pob math o nwyddau,
bwydydd, cardiau,
papur dyddiol ac
yn awr trwydded
i werthu alcohol.



*Cofwch alw -
Cewch groeso cynnes*

Sioe Amaethyddol
Llanbedr Pont Steffan

Cinio Blynnyddol y Sioe

Ar nos Wener, Tachwedd 6ed 2009
Yng Ngwesty'r Llew Du, Llambled
Am 7.30 o'r gloch

Gŵr Gwadd: Mr Dai Jones, Llanilar

Enwau cyn gynted â phosib i -
Mr Aeron Hughes ar rif ffôn 01570 422654
Mr Gareth Russell ar rif ffôn 01570 423396
neu

Mrs Gwen Davies ar rif ffôn 01570 481152

Pris Tocyn £16.50

Croeso Cynnes i Bawb



Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Os ydych yn ymateb i hysbyseb gan
gwmni yn CLONC,
dywedwch wrthynt ymhle y
gwelsoch yr hysbyseb.

www.clonc.co.uk

Gwefan
Papur Bro Clonc,
yn llawn lluniau a
gwybodaeth,
cyfle i chi gyfrannu,
a chyn rifynnau Clonc.

Cwmann

C.Ff.I Cwmann

Nosweithiau Dathlu penblwydd
y clwb yn 50 oed! Dewch i ymuno
gyda ni.

Hydref 30ain – Cinio Cynhaeaf,
Neuadd St Iago, Cwmann. Rhagfyr
6ed – Gwasanaeth Garolau, Capel
Brondeifi. Ionawr 7fed – Sosial
noson agoriadol, Neuadd St Iago,
Cwmann. Mehefin 12fed – Dawns,
Prifysgol Llanbedr Pont Steffan.

Dyma ddyddiadur y clwb am y
mis nesaf:

Hydref 9fed, 16eg a 17eg
Eisteddfod Sir, Hydref 23ain – Sleids
Mr Kevin Davies, Llanwenog.

Croeso i unrhyw berson ymuno
â ni bob nos Wener yn Neuadd St
Iago, Cwmann am 7:30y.h

Os am fwy o wybodaeth,
cysylltwch â'r Cadeirydd Louise
Jones (01558) 669065 neu'r
Ysgrifenyddes Sioned Russell
(01570) 423396.

Sefydliad y Merched.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi
nos Lun y 7fed yn y Ganolfan gyda
Ann ein Llywydd yn croesawu'r

aelodau nôl wedi gwyliau'r haf.
Rhoddwyd llongyfarchiadau i
Dilys am ennill nifer o wobrau
yn ystod yr haf mewn sioeau
ac eisteddfodau lleol. Roedd yn
braf gweld Glesni a Gwynfil
nôl gyda ni ac yn teimlo'n well
ar ôl eu anhwylder. Rhoddwyd
llongyfarchiadau hefyd i Tegwen
a Bethan, y ddwy wedi dathlu
penblwydd arbennig yn ystod mis
Gorffennaf, ac i June am ddod yn
famgu unwaith eto i Mabli Fflur.

Cafwyd noson ddiddorol gan
berchnogion 'Caws Gorwydd'
Llanddewi Brefi, wrth iddynt sôn
am y broses o wneud y caws o'r
dechrau hyd nes eu fod yn cyrraedd
y siop. Maent ar hyn o bryd mewn
trafodaeth gyda chwmni Marks &
Spencers sydd a diddordeb mewn
gwerthu caws 'Gorwydd Caerphilly'
yn eu siopau bywd, a chafwyd
siawns i flasau'r caws ar y diwedd
gyda the a bisgedu wedi eu paratoi
gan Tegwen a June. Talwyd y
diolchiadau gan June ac enillwyd y
raff gan Ann.

Edrychwn ymlaen i'r ginio
ar y 5ed o Hydref yng ngwesty
Glynhegog pan fyddwn yn dathlu
60 mlynedd Sefydliad y Merched
Coedmor.

Clwb 225 Mis Medi

1. 227 Mr. Kennedy, Ty Gwilym;
2. 45 Mr. Alun Jones, Glanrhyd; 3.
31 Mr. Ronnie Roberts, Brynview,
Parc-y-rhos; 4. 84 Helen Davies,
Tanesgair; 5. 87 John James,
Maesteg, Cae Ram; 6. 133 Kevin
Doyle, Caradog View; 7. 107 Ryan
Davies, Delfan; 8. 51 Ann Evans,
Service Garage, Llambled; 9. 7 Wyn
Jones, Felindre Uchaf; 10. 179
Meinir Jones, Hendai.



Iestyn Evans aelod o dîm Rygbi
dan 9 oed Llambled yn ennill
'Tlws y Chwaraewr gorau' mewn
cystadleuaeth 7 bob ochr yn
Aberaeron.

Diolch

Dymuna Yvonne Jones, Tanybryn
ddiolch i'r cymdogion a ffrindiau
am y blodau, anrhegion a galwadau
ffon a dderbyniodd ar achlysur ei
phenblwydd.

Ysbyty

Siom oedd clywed fod Miss.
Bessie Griffiths, 1 Treherbert wedi
cael ei tharo yn sal, ac wedi gorfod
mynd i'r ysbyty a hithau yn dathlu
penblwydd arbennig yn 90 oed ar
Sul yr 20fed o Fedi. Dymuniadau
gorau am wellhad buan.

Diolch

Dymuna Bessie Griffiths
ddiolch i bawb am yr holl gardiau
dderbyniodd ar achlysur ei
phenblwydd, ac hefyd am gonsyrn ei
chymdogion a'i ffrindiau yn dilyn ei
salwch sydyn.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Beca Creamer,
Brooklands am basio Gradd 4 ar
y piano gyda theilyngdod a chael
marciau llawn yn y theori.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Andrew
a Sarah, ar enedigaeth ei merch
fach, Kennedy Haf, yn Victoria,
Vancouver Island ar 11 Awst 2009.
Ail wyres fach i Kevin a Beryl
Doyle, Cwmann.

Sicrhewch eich newyddion
yn y papur hwn. Peidiwch
â disgwyl i rywun arall ei
gynnwys ar eich rhan. Mae'n
rhy hwyr i achwyn ar ôl i
CLONC ymddangos.

GORSAT BRAWE
MOT



GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair
Llambled
SA48 8JX

Ffôn: 01570 422305
Ffôn Symudol: 07974 422305

PEIRIANT GOLCHU
CEIR PŴTH
AR AGOR
7 DIWRNOD YR
WYTHNOS

Dewch i ein safle newydd am wasanaeth prydol a chyfeillgar

* Gwasanaethu ac Atgyweirio * Prisau Cystadleuol am Deïars *
* Egsosts * Batris * Brêcs * Ceir Newydd ac Ail-law ar werth *

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur



Yswiriant tŷ/ cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambled

01570 422895

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm. Offer llaw a phwerus. Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd

NEHAR

newydd agor yn Llambled



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled

01570 422893 / 422175

Cellan

Penblwyddi Arbennig

Dymuniadau gorau i Mrs Maggie Hughes, Nythfa ar ddathlu ei phen blwydd arbennig yn 70 oed a'i hwyres Alis Evans yn dathlu ei 18 fed pen blwydd ym mis Medi. Gobeithio i'r ddwy ohonoch chi fwynhau'r partion.

Pen blwydd hapus iawn i Mr Ken Jones, Glasfryn sy'n dathlu ei ben blwydd yn 70 oed ym mis Hydref.

Croeso nôl

Croeso adref i Gethin James wedi ei gyfnod yn teithio.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw nos Fawrth Hydref y 13eg am saith yr hwyr. Gwasanaethir gan Y Parchedig John Gwilym Jones, Caerfyrddin. Croeso cynnes i bawb.


Babi newydd

Croeso i'r babi newydd ar aelwyd Rhif 2 Tre Cynon.

Capel Caeronnen

Ar nos Sul 18 Hydref am saith yr hwyr cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch. Pregethir gan y Parch Eric Jones, Aberdâr. Croeso cynnes i bawb.

Silian



Dathlodd Rhythwyn a Gwyneth Evans, Maesyradwy, Silian eu priodas aur ychydig amser yn ôl, a derbyniwyd rhoddion o arian yn lle anrhegion tuag at Ymchwil i Glefyd Siwgwr a chyflwynwyd £710 iddynt yn ddiweddar. Dymuna'r ddau ddiolch o galon am garedigrwyd pawb a'u haelioni at yr achos.

Rhifyn mis Tachwedd
Yn y Siopau
Tachwedd 5ed
Erthyglau i law erbyn
Hydref 22ain
Newyddion i law erbyn
Hydref 26ain

Ffarmers

Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Adrian Evans, Maes Aeron, Talsarn a Wendy Lewis, Llwynbychan, Sancler a unwyd mewn priodas yng Nghapel y Drindod, Sancler ar ddydd Sadwrn, yr 8fed o Awst. Y wraig briodas (matron of honour) oedd Karen Stacey gyda Catherine Griffiths yn forwyn briodas. Y gwas priodas oedd Irwel Jones, Aberbranddu, a'r ystlyswyr oedd Ian O'Connor, John Stacey, Owen Lewis a William Griffiths. Cynhaliwyd y neithior yng ngwesty Broadway Country House, Talacharn, a threuliodd Adrian a Wendy eu mis mêl yn ardal y Llynnoedd. Maent bellach wedi ymgartrefu yn Penbanc, Ffarmers.

Yn yr un modd, estynnwn ein cyfarchion i Martin Duffy a Angela Farquharson, Yr Hen Swyddfa Bost, Ffarmers ar eu priodas, hefyd ar yr 8fed o Awst yn Eglwys Caio, gyda'r Parchedig Jo Penberthy yn gwasanaethu. Cynhaliwyd y neithior yn Nolaugwynion, Ffarmers, a threulion eu mis mêl yng Ngwlad Thai. Dymuniadau gorau i Martin a Angela am ddyfodol hapus gyda'u gilydd.

Penblwydd Hapus

Estynnwn ein cyfarchion i Mrs Warner, Dwyllan ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 yn ddiweddar.

Newid Aelwyd

Yn dilyn blynyddoedd lawer yn byw yng Nghae Caradog, mae Mr a Mrs Chapman bellach wedi symud i fyw yn Upton on Severn. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs E Grace, Llys Llanfair, Llanydddyfri (Llwynhelyg gynt) yn dilyn marwolaeth ei gŵr, Mr Edward Grace. Bu'r ddau ohonynt yn byw am flynyddoedd lawer yn Ffarmers, ac wedi bod yn weithgar ym mywyd y gymdogaeth, yn enwedig y Neuadd a'r Eglwys, a'r ddau ohonynt wedi ymdrechu i ddysgu Cymraeg. Rhoddwyd ei weddillion i orwedd yn Eglwys Llandinat.

Blin gennym gofnodi marwolaeth William Davies, (Nantllyn gynt) a oedd yn byw yn Sutton Coldfield, ac estynnwn ein cydymdeimlad i'w briod a'r plant, ac hefyd i'w chwaer, Mrs Ray Davies, Peronne, a'r cysylltiadau yn yr ardal yma.

Gweithgareddau'r Neuadd

Cafwyd noson Gaws a Gwin llwyddiannus yn y Neuadd ar nos wener, Medi 18fed 2009. Yn ogystal a mwynhau amrywiaeth o winoedd o Dde Affrica a Chile, a chaws blasus, cafwyd hefyd adloniant gan y delynores ddawnus, Georgina Cornock-Evans. 'Roedd yn hyfryd cael croesawi Georgina i'r Neuadd,

a hithau bellach wedi ymgartrefu yn yr ardal gyda'i phriod Arwel. Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y gaeaf, cofiwch felly roi nodyn yn y dyddiadur. Bydd cyfle i fwynhau cwmni Y Prifardd Tudur Dylan yn y Neuadd ar y 26ain o Hydref, a chawn gyngerdd gydag Aled Edwards, Cilycwm a Chôr Tŷ Tawe o dan arweiniad Helen Gibbon ar yr 21ain o Dachwedd. Fel arfer, bydd Cyngerdd a Noson o Garolau yn y Neuadd ar y nos Sul cyn y Nadolig, ac eleni cawn gwmni y bariton Kees Huysmas. Mae yna nifer o weithgareddau arall – cadwch lygad ar eich papur bro am fanylion.

Llanfair

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Llanfair Fach ar farwolaeth mam a mamgu annwyl sef Mrs Peggy Jones a oedd wedi ymgartrefu gyda'r teulu ers sawl blwyddyn bellach.

Pererindod o Lanfair i Llanddewi

Ar ddydd Sadwrn, Medi 5ed fe drefnwyd pererindod gan y Parch. Dyfrig Lloyd o Eglwys Santes Fair, Llanfair i Eglwys Dewi Sant, Llanddewi Brefi. Daeth 45 o gerddwyr i sgwâr Llanfair ar gychwyn y bererindod gyda rhai yn dewis y ffordd anodd o gerdded dros y mynydd. Ar ôl cyrraedd pen y daith, cynhaliwyd gwasanaeth yn yr eglwys o dan ofal y ficer, Dyfrig Lloyd. Ar ôl y gwasanaeth, cafwyd te blasus yn y neuadd wedi ei baratoi gan wragedd eglwys Llanddewi. Prynhawn bendithiol dros ben.

Clwb Cant

Enillwyr clwb cant oedd: £20, Colin a Gwen Adams, Brynheulog. £10, Alex a Lynne, Awelon. £10, Matthew Miller, Cysgod y Coed. £10, Aneurin Davies, Ty'n Ffynnon. £5, Tony a Sheila Bennet, Tan Coed. £5, Ceris Quan, Sŵn yr Afon. £5, Ruth Lloyd Davies, Maes yr Awel. £5, Jean Siop, Siop Llanfair. £5, Eirwyn Evans, Llanddeiniol. £5, Mathew, Tŷ Nant.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Charlotte Evans, Y Ddol, Heol Llanfair ar ei llwyddiant yn ei arholiadau dros yr haf.

Cyrrddau Diolchgarwch

Bydd cyrrddau diolchgarwch y pentref fel y canlynol: Eglwys Santes Fair, nos Iau, Hydref 1af. Capel Mair, nos Wener, Hydref 16eg am 7.00y.h. dan ofal Delyth Morgan, Aberystwyth. Capel Mair, bore dydd Mawrth, Hydref 13eg am 10.30y. b. gyda Phlant Cyfnod Sylfaen, athrawon a rhieni Ysgol y Dderi. Croeso cynnes i bawb.

Llanbedr Pont Steffan

Bedyddwyr

Cynhelir cyfarfodydd hanner blyneddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn Noddfa ddydd Iau, Tachwedd 5ed er parch i'r Llywydd sef y Parchedig Glan Roberts a fu'n gweinidogaethu yn y cylch o Orffennaf 1992 hyd Chwefror 2001.

Trefnir y cynhadledd yn y bore am 10.30 ac am 2 y prynhawn gydag oedfa bregethu am 4 o'r gloch. Am fanylion pellach cysyllter ag un o swyddogion Noddfa.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad didwyll a'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Noddfa

Cynhelir gwasanaeth diolchgarwch yn Noddfa ar Sul 18 Hydref am 3.30 yng ngofal y plant a'r bobl ifanc. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Cymdeithas Hanes

Cychwynwyd y tymor newydd nos Fawrth, Medi'r 15fed, a daeth cynulliad da ynghyd i Ganolfan Ymchwil Roderick Bowen yn y Brifysgol. Croesawyd pawb gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, cyn mynd at rhan gyntaf y noson, sef y Cyfarfod Blyneddol. Cafwyd adroddiad benigamp am weithgareddau'r flwyddyn aeth heibio gan y Cadeirydd, cyn derbyn adroddiad ffafriol y Trysorydd.

Swyddogion y tymor newydd fydd:- Cadeirydd, Selwyn Walters; Is-gadeirydd, Eric Williams; Ysgrifennydd cofnodion, Cecilia Barton; Ysg. Rhaglen y flwyddyn, Penny David;

Ysg. Aelodaeth, Jen Cairns; Hysbysrwydd, Yvonne Davies; Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith,- Noel Davies, Marian Roberts a Gaenor Parry.

Diolchodd Selwyn Walters i bawb am dderbyn y swyddi, ac yna aeth ymlaen i groesawu'r Dr. Andrew Prescott, Llyfrgellydd y Coleg i son am 'Gasgliad Ffotograffiaeth y Brifysgol'. Rhoddodd hanes codi'r adeilad newydd er mwyn cadw'r hen ddogfennau a llyfrau mewn awyrgylch ffafriol. Drwy gymorth cyfrifiadur, dangoswyd nifer o hen luniau,-rhan fach o'r 1,500 o luniau sydd yno,- o Llanbedr, hen fusnesau a chymeiriadau'r dre; y Brifysgol,- cynlluniau gwreiddiol Cockerel ac addasiadau,- rhai ohonynt mewn dyfriliw hyfryd; myfyrwyr dros y degawdau a.y.y.b. Caed ymateb da o'r llawr, gan ychwanegu at y wybodaeth a drosglwyddwyd gan y siaradwr. Diolchwyd yn gynnes i Dr Prescott am noson arbennig iawn yn ymwneud ag hanes y Coleg a'r dre, gan Selwyn Walters.

Bydd y cyfarfod nesaf, nos Fawrth, Hydref 20fed, 7.30yh



Disgyblion Ysgol Ffynnonbedr yn arddangos tystysgrifau a enillwyd yn Eisteddfod Llanbedr.

yn Ystafell darlith 7 Adran y Celfyddydau, pan fydd Nicky Evans yn rhoi hanes Llanerchaeron. Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Lun y 14eg o Fedi, yn Festri Shiloh, gyda'r llywydd Aerwen Griffiths yn y gadair. Croesawodd yr aelodau yn gynnes iawn ar ol seibiant yr haf a roedd yn falch iawn cael croesawi aelodau newydd i'n plith.

Gan mae noson y llywydd oedd hi, croesawodd Aerwen ei gwestai arbennig sef Dafydd Wyn Morgan o Dregaron. Mae Tregaron wedi bod yn cofio pedwar can mlynedd ers marwolaeth Twm Sion Cati eleni a daeth Dafydd wedi gwisgo fel ei eilun. Treuliwyd noson hwylus yn olrhain hanes y gŵr lliwgar a drodd o fod yn leidr a dihiryn i fod yn Faer tref Aberhonddu cyn diwedd ei oes

Diolchwyd i Aerwen am drefnu noson mor ddiddorol, ac i Dafydd am roi ei amser gan Glenys Morris.

Ysgol Ffynnonbedr

Mae Pwynt Gwybodaeth gyfrifiadurol wedi'i leoli gennym yn awr yng nghyntedd yr ysgol sy'n galluogi rhieni i dderbyn gwybodaeth am gefnogaeth y sir drwy gyffwrdd y sgrin neu dros linell ffôn.

Braf yw llongyfarch Mr Roderick a'r criw o blant a fu wrthi yn cynhyrchu ffilm ar hanes Sion Philip a Sgweier Ffynnonbedr. Enillodd y ffilm y wobr gyntaf yng Ngŵyl Ffilmiau Ceredigion. Gobeithir cystadlu ar lefel genedlaethol yn y dyfodol.

Eleni eto enillodd nifer o'n plant ar lwyfan Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan, ond yn arbennig cipiodd Meirion Thomas y cwpan am y cystadleuydd mwyaf addawol o dan 16. Yn ogystal enillwyd y Cwpan Celf unwaith yn rhagor a £50 i'r ysgol. Y rhai a fu'n fuddugol yn

yr adran honno oedd y canlynol:- Arlunio Meithrin/Derbyn - 1. Amy Green; 2. Mia Page Hibbert; 3. Sam Jenkins. Addurno llwy - 1. Elan Jones; 2. Osian Jones; 3. Bl 2. Arlunio 1 a 2 - 1. Elan Jones; 2. Samantha Weller-Pryce. Arlunio 3 a 4 - 1. Sofia Tarmizi; 3. Rebeca Heath. Llawysgrifen CA1 - 1. Janis Neal; 2. Tegan Roser; 3. Elan Jones. Cyfrifiadur CA1 - 1. Samantha Weller-Pryce; 2. Guto Green; 3. Lucy Hill. Cyfrifiadur CA2 - 2. Osian Jones. Technoleg - 1. Osian Jones; 2. Daniel Davies; 3. Osian Jones. Ffotograffiaeth - 1. Sara Wyn Evans. Addurno Wŷ - 1. Elan Jones. Diolch i'r staff am eu gwaith, ond yn enwedig i Mrs Llinos Jones am gydlynw'r cwbl.

Chwi gofiwch i ni ennill y categori ysgolion yng nghystadleuaeth Cymru yn ei Blodau y llynedd ac eleni daethom i'r brig unwaith yn rhagor gan ddod yn ail. Mawr yw ein diolch i Miss Wenna Davies a Mr Wyn John a chyfeillion am ein cynorthwyo gyda'r gerddi.

Hyfryd yw cael cwmni Isaias Grandis o Batagonia sy'n treulio mis yn ein cwmni cyn symud ymlaen i'r brif ddinas. Bu'n trafod ei gefndir a'i wreiddiau gyda'r plant a hwythau'n elwa o'r profiad. Gobeithio ein bod ninnau yn ein tro yn cyfoethogi ei fywyd yntau.

Rydym yn hynod falch i Daniel George Burrill gael ei ddewis i fod yn bresennol mewn dathliad arbennig o lwyddiant (Bechgyn mewn Llythrennedd) a ddigwyddodd ddiwedd y tymor diwethaf yng Nghaerdydd. Cafodd gyfle i ymweld â Stadiwm y Mileniwm, cwrdd â rhai o'r sêr a chael ei lun gyda Ryan Jones.

Chwi gofiwch mae'n debyg i ni llynedd anfon blychau i wledydd tramor i blant llai ffodus na'n disgyblion ni. Os carech dderbyn blwch rhwch wybod i ni ac fe drefnwn i chi dderbyn un. Bydd

eu hangen nôl erbyn hanner tymor - diolch.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Meirion Thomas, Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog am basio Gradd 4 ar y piano gydag anrhydedd a chael marciau llawn yn y theori.

Gyrfa Chwist - Hafan Deg

Ar nos Fercher, 2il o Fedi cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Yr enillwyr oedd fel a ganlyn - Dynion - 1af, Gwendoline Jones, Llanybydder. 2il, Mai Williams, Tregaron. 3ydd, Dai Davies, Cellan. Merched - 1af, Margret Jones, Pentrebach, Llanbedr. 2il, Iorwerth Evans, Llangybi. 3ydd, Mari Thomas, Talgarreg. Carden Miniature - Dynion - Maggie Vaughan, Bro Henllys, Felinfach. Merched - Nanna Davies, Stryd Newydd, Llanbedr. Bwrw Allan - Enillwyr - Maggie Vaughan a Ray Thomas, Stryd Newydd, Llanbedr. Ail - Gwendoline Jones ac Iorwerth Evans.

Ar nos Fercher, 16eg o Fedi cynhaliwyd Gyrfa Chwist arall yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans yn arwain unwaith eto. Enillwyr oedd fel a ganlyn - Dynion - 1af - Peggi Davies, Brohenllys, Felinfach. 2il - Iorwerth Evans, Llangybi. 3ydd - Breian James, Trelech. Merched - 1af - Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach. 2il - Ifan Jones, Aberarth. Cydradd 3ydd - Dilwen Rodrick, Llanbedr a Mari Evans, Llanwnnen. Carden Miniature - Dynion - Edward Lockyer, Hafan Deg. Merched - Morfydd Slaymaker, Llanbedr. Bwrw Allan - Enillwyr - Mai Williams, Tregaron a Ruth Davies, Tregaron. Ail - Dilwen Rodrick a Peggi Davies.

Bydd y Gyrfaedd Chwist Mis Hydref ar nos Fercher yr 14eg a 28ain. Croeso cynnes i bawb.

Llanwnnen

Pob hwyl

Dymunwn yn dda i bawb o’r pentref a raddiodd yn ddiweddar. Pob hwyl hefyd i bawb a fydd yn dechrau mewn gwahanol golegau ar hyd a lled y wlad. Mwynhewch!

Ymddeoliad hapus

Pob dymuniad da i Mrs Gillian Jones, Meysydd, wedi ei hymddeoliad dros yr haf.

Ysgol Llanwnnen

Fel y soniwyd yn y rhifyn diwethaf, croesawyd disgyblion Ysgol Cribyn atom, felly dyma eu henwau: Paloma Kalydy, Liam Morgan, Daniel Jones, Deiniol Morgan, Jamie Lampion, Lauren Morgan, Emily Pimblet, Lisa-Marie Plant a Sophie Sale. Hefyd mae Mrs Sue Evans gyda ni am brynhawn bob wythnos yn dysgu Celf. Mae’n braf erbyn hyn cyhoeddi eu bod i gyd wedi setlo lawr yn eu hysgol newydd.

Ar ddechrau blwyddyn newydd mae’r Cynllun Tair Ysgol wedi ail-gychwyn ac mae’n braf cael croesawu Ysgol Llanwenog yn ôl i’r cynllun.

Mae adran yr Urdd wedi ail-ddechrau, ac mae pob plentyn yn yr ysgol yn aelod. Yn ystod mis Medi cafwyd taith gerdded ar lwybr cyhoeddus o Lanwnnen i Derwen Las drwy fferm Ffynnon Fair a noson o chwaraeon potes ar iard yr ysgol.

Prynhawn dydd Mawrth, Medi 22ain cynhaliwyd cystadleuaeth Pêl-droed 5 bob ochr yr Urdd. Bu dau dîm o Lanwnnen yn cystadlu. Bu’r ddau dîm yn chwarae’n dda ac aeth Llanwnnen ‘A’ trwyddo i’r ffeinal yn erbyn Cwrtnewydd, ond colli 0-1 yn yr eiliadau olaf. Pob lwc i Gwrtnewydd yn y rownd nesaf. Cafodd y bechgyn a’r merched brynhawn wrth eu boddau!

Bu’r plant yn cyflwyno rhai eitemau mewn Noson Goffi gan Capel y Groes yn neuadd yr Eglwys, nos Wener, Medi 25ain. Diolch iddynt am y gwahoddiad.

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol yng Nghapel y Groes, nos Iau, 8fed Hydref am 7y.h. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Mrs Avarina Lewis, Gwelfro ddiolch i bawb am y pentwr cardiau, yr anrhegion a’r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 80 oed yn ystod mis Medi. Diolch hefyd i bawb a drodd fewn am baned a chlone ar ddiwrnod ei phenblwydd. Gwerthfawrogiwch y cyfan yn fawr iawn.

Capel y Groes

Ar ddydd Sul 13 Medi fe gynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn y capel i gofio am y diweddar Brifardd ac Archdderwydd Dic Jones. Roedd y gwasanaeth cyfan yn seiliedig ar ei waith llenyddol, sef ei farddoniaeth a’i ryddiaith. Cymerwyd rhan gan Cerys Potter Jones, Luned Mair a Manon Richards yn ogystal ar Parch Cen Llwyd a oedd wedi paratoi’r cyfan.

Ar y dydd Sul canlynol sef 20 Medi cynhaliwyd y Gwasanaeth Pawb Ynghyd. Yn ystod y gwasanaeth derbyniwyd Luned Mair yn aelod o’r capel a gwnaeth ddatganiad o’i rhesymau dros ymuno a’r capel. Derbyniodd Dystysgrif Aelodaeth ar ran y gynulleidfa gan y Parch Cen Llwyd ac wrth ei chroesawu dymunodd yn dda iddi pan fydd, ar ddechrau mis Hydref, yn cychwyn ei chwrs yng Ngholeg Caergrawnt.

Nans Davies oedd yn chwarae’r organ yn y ddau wasanaeth.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu Cwmhendryd yn dilyn marwolaeth mam Ann ddiwedd mis Medi.

Cydymdeimlo

Gyda thristwch y cofnodir marwolaeth Mrs Eva Davies, Ornant.

Cofiwn amdani yn derbyn yr anrhydedd B E M ac roedd mor falch o’r anrhydedd hynny. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda’i phriod Hyw a’r teulu oll yn eu galar ac bu’r angladd yn gyhoeddus yn Eglwys Llanwenog ac yno hefyd y daearwyd ei gweddillion.

Pen-blwydd Hapus

Pen-blwydd hapus i’r Cyng. Haydn Richards, Lowtre ar ddathlu ei ben-blwydd yn 60 oed.

Llangybi a Betws

Cydymdeimlo

Tristwch mawr yw cofnodi marwolaeth Mrs Norrie Hughes, Penbont gynt. Fe hunodd ar Fedi 13eg yn ysbyty Llanelli. ‘Roedd wedi bod yn flaenores ac yn aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Maesyffynnon ers llawer blwyddyn. Treuliodd ei blynnyddoedd olaf yng Nghartref Alltymynydd. Bu’r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Maesyffynnon ar Fedi’r 22ain yng ngofal ei gweinidog y Parch Elwyn Jenkins. Cydymdeimlir â holl gysylltiadau teuluol a ffrindiau.

Hamdden

Fe fydd “Hamdden” yn cychwyn ar brynhawn Gwener, Hydref 2il am ddau o’r gloch yn ysgol Y Dderi. Y gŵr gwâdd fydd Mr John Griffiths. Edrychwn ymlaen am “Sgwrs a Chân”. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu’r gangen ar ddechrau tymor newydd ar Fedi’r 16eg dan lywyddiaeth Lettie Vaughan. Tristwch oedd cofnodi marwolaeth Norrie Hughes a oedd wedi bod yn aelod gwreiddiol o’r gangen ac yn aelod ffyddlon. Dymunwyd adferiad buan i Irene Lewis ac i eraill a fu yn anhwylyd yn ystod yr haf. Llongyfarchwyd Eleanor Evans ar ei llwyddiant ysgubol yn ennill pedwar cwpan a gwobr arbennig yn y Sioe Frenhinol ac i Mary Jones am ennill cwpan a gwobr arbennig yn Sioe Llambed.

Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni’r wraig wadd sef Hazel Thomas. Bu’n sôn am ei hymweliad â Gŵyl Smithsonian yn Washington. ‘Roedd yr hanes yn ddiddorol tu hwnt. Gŵyl werin yw hon o wahanol wledydd yn arddangos eu nwyddau a’u gwahanol draddodiadau, a thro Cymru oedd hi eleni, a bu grŵp bychan o arbenigwyr allan yno yn cynrychioli Cymru, ac Hazel yn un ohonynt. Cawsom adroddiad bendigedig am yr achlysur. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch a gwerthfawrogiad am noson mor ddifyr ac addysgiadol gan Denise Hicks.

Rhoddwyd y raffl gan Lettie Vaughan, Gwyneth Evans a Mair Spate. Enillwyd hwy gan Gwyneth Jones, Mair Spate ac Eleanor Evans. Cofiwch am y gwahoddiad i ymweld â Changen Llwynpiod i arddangosfa Goginio yn neuadd Llangeitho ar Hydref 1af. I’r cyfarfod nesaf rydym ym disgwyl Mrs Megan Richards i sôn am ei thaith i Ganada. I ddiweddu’r cyfarfod cafwyd paned o de wedi ei baratoi gan Jennifer Cairns a Mair Spate. Croeso i aelodau newydd.

Ysgol y Dderi

Yn ystod mis Awst cawsom ddathlu dwy briodas, a hoffwn longyfarch Kate ac Ollie Fawkes-Roberts a Bethan ac Owain Jones. Dymunwn yn dda i’r ddau gwpl yn eu bywyd priodasol. Yn yr un gwynt hoffai pawb ddymuno gwellhad buan i Mrs Kate sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac edrychwn ymlaen at ei

chroesawu ‘nôl yn fuan. Erbyn hyn hefyd, mae Mrs Bethan Mai Jones wedi cychwyn ar swydd newydd dros dro fel athrawes ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen yng Ngheredigion. Pob hwyl iddi hithau.

Croeso cynnes iawn i Miss Caryl Davies sydd wedi ymuno efo ni fel athrawes Blwyddyn 1. Bu Caryl yn dysgu yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth cyn cychwyn efo ni ar ddechrau’r tymor hwn. Gobeithio y bydd hi’n hapus yma yn ein plith ac yn mwynhau bod yn rhan o’r tîm.

Trist yw gorfod ffarwelio â Miss Bethan John, sydd wedi bod yn weinyddes feithrin gydwybodol iawn yn Ysgol y Dderi ers pedair mlynedd a hanner. Mae hi ar fin cychwyn cwrs gradd mewn addysg yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin er mwyn hyfforddi i fod yn athrawes. Dymunwn bob hwyl iddi yn ei menter newydd a diolch iddi hefyd am ei blynnyddoedd o waith caled.

Llongyfarchiadau i Tirion Lloyd, Blwyddyn 1, am ennill amryw o rubanau a gwobrau am ddangos ei cheffyl, Charlie, mewn nifer o sioeau gan gynnwys y Sioe Frenhinol. Mae hi hefyd wedi ymddangos yn ddiweddar ar raglen Ffermio ar S4C. Da iawn ti ar dy lwyddiant, Tirion, a da iawn Charlie hefyd, wrth gwrs!

Yn ddiweddar fe enillodd yr ysgol wobwr yn y gystadleuaeth “Wales in Bloom”, yn yr adran i ysgolion, a hynny dros Gymru gyfan. Casglwyd y wobwr gan Mrs Ann Davies a Mr Roger Hartwell mewn seremoni wobrwyo arbennig ym Mhafiliwn De Valance, Dinbych y Pysgod, ar Ddydd Gwener, y 18fed o Fedi. Mae gerddi’r ysgol yn werth eu gweld, ac i Mr Roger, ein gofalwr, mae’r diolch am hynny. Mae’r plant hefyd wrth eu boddau yn helpu i gynnal a chadw’r amgylchfyd yr ysgol. Diolch i bawb am eu gwaith caled.

Bu’r ysgol yn ffodus iawn i dderbyn gwobr o £500 gan y Cyngor Prydeinig am gynhyrchu DVD yn dangos plant Blwyddyn 3 a 4 yn cael y cyfle i ddysgu iaith Mandarin. Mae hwn wedi bod yn brofiad gwerthfawr i’r plant yma ac y maent wedi cael llawer o hwyl yn dysgu yng nghwmni Scott a Honey, yr athrawon.

Enillwyd y drydedd ddeilen Ysgol Iach gennym yn ddiweddar am ein gwaith yn hyrwyddo pwysigrwydd ffordd o fyw iachus.

Bu criw o blant yr ysgol yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Diolchgarwch Eglwys Sant Cybi ar nos Sul, yr 20fed o Fedi. Casgliad o eitemau cerddorol a gafwyd ganddynt – diolch iddyn nhw am eu parodrwydd i gymryd rhan.

Cynhelir gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol ar Ddydd Llun, Hydref y 12fed, ac yna ar y 13eg, fe fydd gwasanaeth y plant bach yng Nghapel Mair, Llanfair Clydogau am 10:30 yn y bore, a’r plant hŷn yng Nghapel Maes y Ffynnon, Llangybi am 1:30 yn y prynhawn. Croeso cynnes i chi ymuno efo ni yn y gwasanaethau yma.

Llanllwni

Cylch Meithrin Llanllwni

Mae yna groeso i blant bach yr ardal fynychu Ysgol Feithrin Llanllwni ar fore Llun, Mawrth a Mercher o 8.40 hyd 12.00. Mae'r Cylch wedi ail leoli i ystafell pwrpasol yn Ysgol Gynradd Llanllwni ac yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r staff a llywodraethwyr yr ysgol am ddefnydd yr ystafell groesawgar yma. Yr ydym yn derbyn plantos o 2 oed ymlaen felly croeso i chi gysylltu â'r Arweinydd os oes gennych ddi-ddordeb i'ch plantos ddod atom i gael hwyl yn canu, dawnsio, lliwio, paentio, chwarae tegannau a llawer mwy.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Mae amser y Cylch wedi newid i fore Iau o 9 – 11 y bore croeso cynnes i famau/ tadau, mamgu's a thadcu's, gofalwyr a'r plantos bach i alw draw am baned a chlonec tra bod y plantos yn mwynhau chwarae tegannau, paentio a llawer mwy.

Mabolgampau Llanllwni

Cafwyd brynhawn o hŵyl yn Cae Chwarae Llanllwni dydd Sadwrn y 12ed o Fedi, pan ddaeth nifer o blantos a phobl yr ardal ynghyd i fwynhau Diwrnod Mabolgampau. Diolch i bawb - mawr a bach a wnaeth y diwrnod yma yn lwyddiant trwy redeg, cymeryd rhan mewn rhas ŵy a llwy, a bagiau ffâ, ras cyfnewyd a thaflu wellington!! Hefyd diolch am yr holl gyfraniadau o chacennau a rhoddion tuag at y raffl. Gwnaethpwyd elw o £320 ar y dydd, a braf oedd gweld yr haul ar ôl gorfod gohirio oherwydd y glaw ym mis Awst!

Ffair Nadolig

Ydi mae bron iawn yr amser yna o'r flwyddyn! Bydd Ffair Nadolig yn Neuadd yr Eglwys Llanllwni dydd Sadwrn 28ain o Dachwedd am 7.30yh. Galwch draw i gefnogi a phrynu anrheg Dolig at achos da gan fydd yr elw yn mynd tuag at Cylch Meithrin Llanllwni – fydd yna fwy o fanylion yn rhifyn nesa Clonc.

Ysgol Feithrin

Cyfarfod Blynnyddol Ysgol Feithrin Llanllwni 19ed Hydref 2009 8yh yn Ysgol Gynradd Llanllwni – Mae croeso i chi alw draw i ddarganfod beth sydd wedi bod yn digwydd gyda Ysgol Meithrin Llanllwni dros y flwyddyn. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul Eglwys Llanllwni

Cafwyd tipyn o hŵyl ar ein trip blynnyddol ar yr 8ed o Awst pan ymwelom â Chantref ger Aberhonddu. Diolch i Morfydd a Janet am drefnu'r trip. Hoffwn estyn ein diolch i Morfydd am dros ddegawd o wasanaeth fel Athrawes Ysgol Sul. Mae'r Ysgol Sul wedi ail ddechrau ac mae yna groeso cynnes i aelodau newydd ymuno.

Ysgol Llanllwni

Croeso i Aled Davies a Thomas Williams sydd wedi dechrau yn nosbarth y babanod. Maent yn hapus iawn gyda'i ffrindiau newydd.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau amrywiol mewn sioeau ac eisteddfodau yn ystod yr haf.

Bu deg o ferched o'r Adran Iau yn dawnsio dawns y blodau yn seremoni'r coroni a'r cadeirio yn Eisteddfod Llambled. Roedd yn brofiad bythgofiadwy iddynt a chawsant ganmoliaeth am fod yn ddawnsuwr mor hapus.

Sesiynau hoci sydd gennym yn ein clwb Campau'r Ddraig i'r Adran Iau.

Gan fod ffordd osgoi Llandysul yn agor cyn hir, cafwyd wahoddiad gan y Cyngor Sir i gerdded

ar y ffordd. Cerddodd rhai o'r plant a'u rhieni y ddwy filltir ar noson braf ar ddechrau'r tymor gan godi arian at Uned Cancr Ysbyty Llanelli.

Mae blwyddyn 5 a 6 yn derbyn arbenigedd celf gan yr arlunydd Keith Bayliss o Abertawe. Byddant yn mynd i Ysgol Llanybydder bob dydd Gwener am wyth wythnos i gael gweithdai celf. Diolch i Ysgol Llanybydder am y croeso.

Mae'r ysgol yn dathlu 140 mlynedd o addysg y flwyddyn nesaf. Os oes gan unrhyw un hen luniau, hanesion neu syniadau o weithgareddau i ddathlu'r achlysur gallwch gysylltu a'r ysgol.

Mae cymdeithas Staff, Rhieni a Ffrindiau yn trefnu taith gerdded nodedig ar brynhawn Gwener, Hydref 2ail er mwyn codi arian tuag at gronfa'r ysgol. Byddwn yn cerdded o Neuadd yr eglwys lan i'r ysgol lle bydd amrywiaeth o stondinau, raffl, ayb. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr a Ffrindiau'r ysgol am fis Awst a Medi: Awst: £10 – 83 Chris Glasson, Frondeg. £5 – 50 Heidi Wilton-Baker, Bryn Llywelyn. £2.50 – 121 Elaine Edwards, 3 Lon Y Felin, Talog. £2.50 – 57 Sioned Howells, Pantglas £2.50 – 44 Tomos Jones, Bryn Llwni. Medi: £10 – 41 Marna Jones, Maes Y Grug, Gwyddgrug. £5 – 178 Emily Kettle, 3 Bryndulais. £2.50 – 1 – Justin Jones, Hafan Deg. £2.50 - 59 Ceris Howells, Pantglas. £2.50 – 61 Hamza, Cwm Iar.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Paul a Menna Jones, Tŷ Newydd ar ddathlu eu Priodas Arian ddiwedd mis Medi.

Priodas

Dymuniadau gorau i Bleddyn Thomas, Neuadddeg a'i briod Meryl o Landdeusant ar eu Priodas dydd Sadwrn, Medi 19eg. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

Diolch

Dymuna Mike a Marilyn, Bryndulais ddiolch am y cardiau a rhoddion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhian Davies, Bryn-y-coed, Pencader ar ennill y Brif Gystadleuaeth Llefaru dan 21 oed a'r gystadleuaeth Monolog yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Llambled ddiwedd mis Awst.


Sioe C.Ff.I. Llanllwni

Ar ddydd Llun Gŵyl y Banc, cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid a sioe C.Ff.I Llanllwni ar gaeau Abercwm trwy garedigrwydd Mr a Mrs Davies a'r teulu.

Er i'r tywydd fod yn ansefydlog, daeth tyrfa dda i gefnogi. Gwelwyd cystadlu brwd yn y treialon cŵn defaid, ybabell, a'r defaid. Da beth oedd hynny.

Llywydd y dydd eleni oedd Mr E. Jones, Brynsegur, Maesycrugiau. Braf oedd cael eich cwmni a diolch am eich rhodd haelionus. Cynhaliwyd sioe fideo yn yr hwyr yn Nhafarn, Talardd, ac yna ocsiwn i gloi'r noson.

Gan gofio nad oedd y ffermwyr ifanc yn gwneud unrhyw elw, mae swm sylweddol o arian



Ifan Thomas, Fferm y Bryn a gafodd y wobwr gyntaf am drafod dafad yn Sioe Llanllwni.

wedi cael ei godi at yr elusen a ddewiswyd, sef Uned Gofal y Fron, Ysbyty Llanelli.

Dymuna C.Ff.I. Llanllwni ddiolch i'r holl noddwyr am eu cyfraniadau, y beirniad am eu gwaith, i'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth, y stiwardiaid ynghyd â phawb arall a fu'n helpu. Diolch i chi gyd!

CANLYNIADAU:- Treialon Cŵn Defaid: J. D. Jarman, Cil Dydd (Jaff), Agored De Cymru: Martha Morgan, Troedrhwiw las (Bess), Nofis De Cymru: J. D. Jarman, Cil Dydd (Shep)

Sioe:- Adran Garddwriaeth: Mr. Eric Jones, Dwylan, Pencader, Adran Flodau: Mrs. Janet Jones, Dwylan, Pencader, Adran Goginio: Mrs. Ruth Evans, Maes yr Onnen, Adran Cyffeithiau a Gwîn: Edwards, Mon yr Afon, Adran Defaid Mynydd: Jones, Highview, Adran Defaid Iseldir: Evans, Pantycoubal, Pencampwyr Defaid: Jones, Blaenblodau, Adran Gwartheg Godro: Davies, Gwndwn

Adran Gwartheg Eidion: Jones, Tirlan / Lewis, Gwarcoed Einon, Pencampwyr Gwartheg: Davies, Gwndwn, Adran Cynnyrch Fferm: Mr. Eric Jones, Tirlan, Adran Plant Dan 7: Hannah Edwards, Mon yr Afon, Adran Plant 7-11: Betsan Jones, High View

Ar ddechrau Mis Medi cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Clwb a chafodd y swyddogion isod eu hethol am y flwyddyn sydd i ddod: Cadeirydd: Meryl Davies, Bryn y Coed, Pencader, Is-Gadeirydd: Catrin Evans, Glas y Dorlan, New Inn, Ysgrifenyddes: Nerys Thomas, Bwlchclawdd, New Inn, Trysorydd: Sion Evans, Glas y Dorlan, New Inn, Ysgrifenyddes Cofnodion: Catrin Evans, Glas y Dorlan, New Inn, Ysgrifenydd y Wasg: Owain Davies, Gwndwn, New Inn

Hoffwn ddymuno pob lwc i'r swyddogion yn eu swyddi newydd!

Braf yw gweld aelodau newydd yn llawn brwdfrydedd ac yn fwy na pharod i ymuno yng ngweithgareddau'r clwb. Mae'r clwb wedi bod ar ymweliad â 'Telynnau Teifi' ac rydym nawr yn brysur iawn yn paratoi tuag at gystadleuaeth Eisteddfod y Sir sydd yn dod i fyny canol mis nesaf.

Cadwyn Cyfrinachau



Enw: Lyn Jenkins
Oed: 26
Pentref: Llanybydder
Gwaith: Porthor yn Ysbyty Glangwili
Partner: Bethan
Teulu: Emyr, Mary, Arwel a Mam-gu

Unrhyw hoff atgof plentynodod.
Mynd ar wyliau mewn carafan.
Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Thundercats.
Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Bod yn gwrtais bob amser.
Y CD cyntaf a brynast di erioed?
Now 38.
Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Actor.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Cerdded ar dop mynydd ar ddiwrnod braf, dim sŵn traffig dim ond tawelwch.
Y peth gorau am yr ardal hon?
Teulu a ffrindie.
Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Pobol fusneslyd.
Pa mor wyrdd wyt ti?
Allen i fod yn neud lot mwy.
Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg adref bob tro ond yn y gwaith - dwyieithog.
Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobl sy'n cyhuddo rhywun arall am rywbeth maen nhw eu hunain yn euog ohono.
Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Bwcio trip rownd y byd!



Beth sy'n codi ofn arnat?
Colli rhywun agos.
Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Ar ôl parti priodas Eilir a Carol.
Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Pethau mwyaf twp gan amlaf.
Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Llythyr swyddogol o'r bos yn dweud diolch.
Ac yn bersonol?
Cyrraedd 14,500 o droedfeddi yn yr Andes tuag at Ymchwil Cancr.
Wyt ti'n difaru rhywbeth?
Dylen i wedi mynd i weithio dramor yn syth o'r ysgol.
Beth yw dy gyfrinach i gadw'n gryf?
Tynnu'r Gelyn.
Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?

Cerdded lan a lawr y coridorau a'r grisiau trwy'r dydd yn y gwaith.
Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
'Na yn fawr o dy fywyd.
Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Cyfeillgar, hyderus ac onest.
Beth yw dy hoff adeilad?
Yr Hoover Dam yn Nevada.
Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Megan Fox neu Eva Green.
Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinese.
Beth wyt ti'n ei ddarllen?
The Sun.
Beth yw dy hoff arogl?
Porfa ffres wedi torri a phetrol.
Sut wyt ti'n ymlacio?
Gwyllo ffilm dda.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
Facebook.
Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
421.
Hoff gân ar dy ipod?
Sa i'n berchen ipod.
Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Rhian Griffith ffrind coleg - ma llais anhygoel gyda hi. Bydd hi'n siŵr o fod yn enwog rhyw ddiwrnod weden i.
Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
Transformers 2.
Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Llunie.
Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Chwarae'r gitâr.

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?
Hoffen i feddwl bod 'na.
Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Iechyd.
Y gwyliau gorau?
Treulio 3 mis yng Nghanada'r llynedd. Ond mae gwyliau gyda'r bois yn ddiddorol 'fyd. O ie heb anghofio Rali Ewropeaidd eleni!
Unrhyw dalentau cudd?
Mae rhai yn gweud mod i'n gallu canu.
Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Gall lot o bethau ddigwydd mewn deng mlynedd – pwy a ŵyr! Os fydda i'n fyw ac yn iach bydda i'n hapus.
Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Gwennan Davies,
Llanwenog

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

3	2				6	9
1			5			3
		6		2		
4		3			9	2
		3		8		
2		7			3	5
		2		1		
8			4			1
9	5				3	4

Atebiob Swdocw mis Medi.

Llongyfarchiadau i Betty Prydderch, Tyngrug, Llanllwni a diolch i bawb arall am gystadlu: Jean Morgan, Bryn-yr-Eglwys, Llambod, Bethan Williams, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder, Janet Williams, Lynden, Caerfyrddin, Y Parch Beti Morris, Bro Mihangel, Felinfach, Meinir Jones, Hendai, Cwmann, Lynwen Davies, Glas-dir, Llanybydder, Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder ac Avril Williams, Y Fedw, Cwmann.

1	9	4	2	7	3	5	8	6
2	5	7	4	6	8	1	9	3
6	3	8	1	5	9	7	2	4
7	4	1	6	3	2	9	5	8
5	2	9	7	8	4	6	3	1
8	6	3	5	9	1	2	4	7
3	8	5	9	1	7	4	6	2
4	7	6	3	2	5	8	1	9
9	1	2	8	4	6	3	7	5

Ymwelydd o Batagonia

Isaías Grandis o Drefelin ydw i, ond mae'r Cymry yn fy ngalw i yn "Eseia"(fel y proffwyd).

Yn wreiddiol roeddwn yn dod o Villa María (Pentre Mair), Córdoba (Talaith yng Nghanolbarth Yr Ariannin). Symudodd fy nheulu i'r Wladfa (Talaith Chubut yn Patagonia) pan o'n i'n bedair oed; ces i fy magu yn Nhrefelin, Cwm Hyfryd yn yr Andes, lle ddes i i adnabod y Cymry mewn capeli, ac lle'r es i i'r Ysgol Gymraeg Yr Andes (Adain Trefelin).



y Cwrs Meistroli Cymraeg yng Nghaerdydd, ac hefyd arsylwi a chael hyfforddiant mewn Ysgolion Cymraeg fel "Ysgol Ffynnonbedr, Llambled" ac "Y Berllan Deg, Caerdydd".

Bues i yn Eisteddfod Llambled ar y llwyfan yn y Seremoni Cadeirio fel rhan o'r Pwyllgor Eisteddfod Trefelin, ac hefyd bues i yn pregethu mewn capeli (Capel Neuadd Lwyd Sir Geredigion a Chapel Y Dyffryn, Sir Caerfyrddin). Astudiais i "Duwinyddiaeth Protestanaidd" yn Gran Buenos Aires o gwmpas Prif Ddinas Yr Ariannin) ac fel "Uwch Dechnegydd Twristiaeth" yn Nhrefelin.

Mi fydda i'n dychwelyd i'r Andes yn Mis Tachwedd i weithio fel Tiwtor Cymraeg yn Ysgol Gymraeg yr Andes ac fel Athro Twristiaeth yn Ysgol Uwchradd Corcovado.

Dydw i ddim yn dod o dras Cymreig ond ces i fy magu gyda llawer o deuluoedd Cymraeg o gwmpas fy nheulu; felly roeddwn yn clywed yr iaith ers pan o ni'n blentyn a dw i'n siarad Cymraeg hefyd.

Bues i yn Llambled yn 2006 ac yna 'nes i Gwrs Haf yr Iaith Gymraeg yn y Brifysgol. Wedyn es i yn ôl i'r Wladfa i weithio yn yr Ysgol Gymraeg Trefelin fel helpwr mewn dosbarthiadau ar y dechrau, ac ar ôl tipyn o amser fel tiwtor.

Eleni des i i Gymru i 'neud

William Jones y 'Gaffer' gan Alun Jones, Parcyrrhos

Y dydd o'r blaen dyma fi yn dod ar draws llyfr bach coch, ac ynddo gofnod o nwyddau a ddefnyddiwyd ar y rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth rhwng 1906 -09.

Penodwyd fy nhadcu fel 'pengweithiwr', neu 'ganger' gan gwmni yr M+M (Milford Manchester) Railway yn 1905, a Gang rhif 3 oedd i ofalu am yr 'hyd' o Lamberd i Lanybydder. Symudodd o ardal Llanilar i Ffarmers Hall ym Mhentref Parcyrrhos, a disgrifiad ei waith yn ôl sensws 1911 oedd 'plate-layer,' sef gweithiwr oedd yn gosod y cledrau.

Mae hanes rheilffordd gorllewin Cymru yn un cythryblys iawn gan fod sawl cwmni wedi dangos diddordeb i'w hadeiladu, ond bod yr hen broblem oesol o arian, - a thirwedd mynyddoedd y Cambrian yn rwystr. Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yr hewl haearn yn ei hanterth ar draws de Cymru, ac roedd pobl yn awyddus iawn i gysylltu gogledd Lloegr - ardal Lerpwl a Manceinion - ac Aberdaugleddau; byddai hyn yn hwb i economi'r ddwy ardal, a Chymru ar ei hyd.

Cost y cynllun gwreiddiol oedd tua dwy filiwn o bunnoedd. Bu sawl cwmni â chynllun i wneud y gwaith, ac ar ôl sawl deddfwriaeth seneddol, gwyddom fod cwmni'r M+M wedi gwneud cytundeb â David Davies a Baston i adeiladu'r trac o Bencader i Bonrhydfendigaid yn 1864. Cyflogwyd 700 o ddynion i wneud y gwaith gyda 150 o geffylau a chartiau; dyma oes aur plwyfi Clonc. Cafodd y ffordd barhaus ei hadeiladu drwy ddefnyddio clai, cerrig a choed pin lleol ar y cychwyn, ond bu rhaid mewnforio sliperi yn fuan. Cafodd y cledrau chwech, saith, ac wyth llathen o hyd eu gwneud yng Nglynebwy, ac yn eistedd mewn cadeiriau 28 pwys.

Fel ganger, byddai fy nhadcu a'i weithwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw 'hyd' oedd tua phum' milltir. Yn arferol, byddai'n cerdded yr hyd bob dydd, ac yn ffystio unrhyw allwedd a oedd wedi gweithio'n rhydd yn ôl i'w lle â morthwyl coeshir. Cariau sbaner coeshir i sgrwio unrhyw foltt a ddaeth yn rhydd oherwydd cryndod, a 'gauge' arbennig, sef darn o bren tua 56 modfedd o hyd, ac arno dau ddant pres 4 troedfedd 8 modfedd a hanner oddi wrth ei gilydd. Dyma'r mesuriad rhwng y cledrau, a rhaid gofalu bod y ddau ddant yn eistedd yn glyd,- neu gadael y cledrau wnai y tren!

Dyma fel mae cofnod yr wythnos diweddu Mehefin 22ain 1907: "Nwyddau newydd wrth law. Sliper, 552; Key, 1710; Spikes, 445; Fang Bolts, 1018; Chairs, 38; Fish Bolts, 66; Defnyddiau ffensio, 71; Coed tan, 499."

Dyma esboniad yr ar y gwahanol nwyddau a geir yn y llyfr, a diolch i Mr. Gwynfor Davies, Maesteg, gynt Y Felin, Llanbed, am roi'r esboniad i fi.

Sliper, darn o bren tua 8 troedfedd o hyd, 5 modfedd o drwch a 10 modfedd ar draws, yn gorwedd lled y rheilffordd.

Chairs, Y Gadair lle mae'r cledrau yn eistedd ynddynt.

Keys, darn o bren tew, 6" x 3" x 2"; defnyddiwyd rhain i gloi'r cledrau yn y gadair. Erbyn heddiw, rhai dur ydynt.

Fish Plates, darn o fetel tua troedfedd o hyd a tua 3".

Fish Bolts, plwm gyda thyllau i gysylltu'r cledrau â boltau.

Spikes, i ddal y gadair wrth y sliper yn yr hen dyddiau.

Fang Bolts, math arall i gysylltu'r gadair wrth y sliper; ceir rhain mewn gwahanol hydoedd.

Gwelwn erbyn tua 1909 bod nwyddau eraill ar gael gan fod y G.W.R ar gymryd drosodd y rheilffordd, a bod rhaid addasu cledrau'r M+M i'r G.W.R. Erbyn heddiw dim ond cof ac ambell olion sydd ar ôl ym mhlwyfi Clonc wedi i 700 o weithwyr lafurio yn galed i roi gorllewin Cymru ar fap y ffordd barhaol.

(i'w barhau)

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref



Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,
Llanbedr Pont Steffan

Am holl fwydydd a nwyddau
amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Yn y Gegin gyda Gareth



“Gwrachod yn y gegin”.

‘Rwy’n rhannu’r gegin y mis hwn gyda gwrachod a bwganod, oherwydd byddwn yn dathlu ‘Calan Gaeaf’ diwedd y mis – felly beth am gynnal parti, a chael ffrindiau, y teulu a’r plant draw i’r tŷ. Cofiwch addurno’r tŷ i greu awyrgylch, cerfio wyneb i’r bwmpen neu erfinen. Byddai fy nhad yn helpu i gerfio erfinen a’i haddurno er mwyn cystadlu yn ‘Aelwyd yr Urdd’.

Felly digon o sport a hwyl – gobeithio y bydd y rysetiau yn help i gynnal yr hwyl a chyffro Calan Gaeaf.

Bw! - Bw! – Ha! –Ha!

Gareth.

‘Dip y Diafol’

Cynhwysion

- ½ pwmpen wedi’i dorri’n fân
- 1 llond llwy fwrdd o olew llysieuol
- ½ llond llwy de o ‘chilli’
- 3 llond llwy fwrdd o gaws mascarpone

Dull

- Trowch y ffwrn i 200°C, 180°F, Nwy 6
- Gorchuddiwch y bwmpen ag olew, halen a phupur, gosodwch ar dun pobi yn y ffwrn a rhostiwch am 20 i 25 munud.
- Gadewch i oeri, yna i’r prosesydd bwyd gyda’r mascarpone y chilli yna chwirliwch.
- Gwaenwch gyda bisgedi brige a bara.



‘Sŵp Sleim’

Cynhwysion

- 2 llond llwy fwrdd o olew
- 1 winwnsyn wedi’i ddarnio’n fân
- 250 gm o datws wedi’u darnio
- 450 gm o bŷs wedi rhewi
- 1½ liter o stoc llysiau
- 1 tun o bŷs slwtch
- Ychydig ddarnau o ham

Dull

- Twymwch yr olew mewn sosban fawr a ffriwch y winwnsyn nes yn feddal; ychwanegwch tatws, y pŷs wedi rhewi a’r stoc. Dewch a’r cyfan i’r berw, rhowch gaeaf ar y sospan a mudferwch am 10 munud.
- Rhowch y cyfan yn y prosesydd bwyd am ychydig. Dychwelwch i’r sosban ac ychwanegwch y pŷs slwyth. Cymysgwch yn dda a twymwch y cyfan
- Gweinwch gyda darnau o ham ar yr wyneb.



‘Adenydd Ystlum’

Cynhwysion

- 8 aden cyw iar
- 5 llond llwy fwrdd o ‘ketchup’ tomato
- 2 llond llwy fwrdd o fêl
- 2 llond llwy fwrdd o saws soy
- 1 llond llwy fwrdd o fwstard cyflawn (wholegrain)
- Ychydig o hadau sesame

Dull

- Gosodwch yr adenydd mewn dysgl sy’n addas i’r ffwrn.
- Cymysgwch y cynhwysion gwlyb, brwsiwch dros y cig. Rhowch yn yr oergell am tua dwy awr fareneiddio.
- Trowch y ffwrn i 180°C Nwy 4. Sgeintiwch y cig gyda’r hadau sesame a choginiwch am 35 munud.



Diod y dathlu.

Cynhwysion

- 1 peint o sudd llugaeron (cranberry)
- 1 peint o ddiod fain (Ginger beer)
- 1 peint o sudd afal
- Melysion ‘spooky’ i addurno

Dull

- Arllwyswch y diodydd i grochan mawr.
- Cymysgwch yn dda ac addurnwch gyda’r melysion yn arnofio ar yr wyneb.



MiS y PaPur NewYdd

Colofn Dylan Iorwerth

Roedd pawb yn gwirioni’r un fath

Roedd yna un neu ddau o bobol ddŵad - heblaw fi - yn y Marcî yn Gors Goch y noson o’r blaen, pan oedd ocsiwn Apêl y Gors ar ei anterth.

Roedd hi’n hawdd eu nabod nhw – nid am fod ganddyn nhw gyrn neu saith bys neu hanner dwsin o glustiau, ond am fod eu cegau led y pen ar agor.

Petai rhywun mwy dieithr fyth wedi landio yno – o Mars neu Loegr falle – mi fydden nhw wedi rhyfeddu mwy fyth. A dweud y gwir, mi fydden nhw wedi dianc yn ôl i Mars cyn gynted ag y gallen nhw.

Mi fydden nhw yn bendant iawn wedi dod i’r casgliad fod yno lond lle o bobol hollol wallgo. Boncyrs ... gwirion ... a chythreulig o wael am fathemateg.

Roedd yna eitem yn dod gerbron a phawb yn gwybod beth oedd ei bris – gwerth £100 o brydau bwyd mewn restront leol, er enghraifft – ac roedd pobol yn bidio i dalu mwy. Llauer mwy. Cymaint â dwbwl y pris.

Roedd yna ffermwyr yno oedd yn gwybod prisiau ŵyn i’r blewyn ond yn talu llauer iawn mwy nag y bydden nhw mewn mart. A cheiliog y gwynt yn mynd am bris llogi Sian Lloyd am bythefnos.

Erbyn diwedd y noson, rhwng y raffl fawr (drefnus iawn), y gig efo Newshan a Gwibdaith Hen Frân, roedd hi’n amlwg fod y noson ei hun wedi codi tua £30,000.

Roedd yna wythnos o weithgareddau eraill, wrth gwrs, a’r cyfan yn golygu fod un o’r pentrefi lleia’ yng Ngheredigion wedi codi swm a fyddai’n codi cywilydd ar rai o drefi llauer mwy yr ardal.

Mae pawb yn gwybod fod yna stori y tu ôl i’r Apêl a bod hynny’n rhan o’i llwyddiant. Roedd pawb yn dathlu fod un dyn ifanc (ish) wedi llwyddo i oresgyn salwch sy’n llorio cymaint. Roedd ei frwydr o yn frwydr i bawb, mewn rhyw ffordd.

Ond roedd llwyddiant yr apêl yn dweud rhywbeth hefyd am natur cymdeithas. Oherwydd fod Geraint a’i deulu yn cyfrannu cymaint i’r cylch, roedd y cylch yn hapus iawn i droi rhoi rhywbeth yn ôl i gefnogi eu hymdrech nhwthau.

A beth am yr ardal gyfan? Nid Apêl y Gors ydi’r unig achos da i gael cefnogaeth ryfeddol yn y gornel fach yma o’r wlad. O ffair ysgol Cwrtnewydd i apeliadau Eisteddfod yr Urdd neu’r Sioe Fawr, mae’n anodd credu fod unman tebyg am fynd i boced i gyfrannu.

A dyna pam fod y bobol ddŵad yn gegrwth. Mi fydden nhw - fel fi - wedi clywed y storis am y Cardis ac efallai, hyd yn oed, wedi dweud ambell i jôc ar eu traul. Honno am Concorde, efallai, yn giwchian wrth hedfan uwchben Ceredigion, pan oedd y nyts yn tynhau ...

Roedd pawb wedi clywed am y chwedlau ac, felly, yn methu yn lân â gwneud sens o’r hyn oedd yn digwydd o’u cwmpas. Mae digwyddiadau fel Apêl y Gors yn chwalu’r straeon Cardis i gyd.

Efallai fod hyn hefyd yn awgrymu nad ydi ffermwyr ddim cweit mor dlawd ag y basech chi’n meddwl ... ond stori arall ydi honno.

Prin fod sŵn yr ocsiwn wedi tawelu nag y daeth newyddion gwahanol iawn ac eto, rhywsut, yn perthyn.

Ar ôl brwydr hir, ildio a wnaeth Eva Davies yn Llanwnnen. Ond mi fyddai pobol ddŵad wedi rhyfeddu ati hithau hefyd.

Mae yna rai cymeriadau sy’n cadw olwynion i droi ac yn gweithio’n galed, galed heb ofyn dim yn ôl. Roedd Eva yn un o’r rheiny. Yn garedig ac yn hael.

Pe baech chi’n cyfri’r holl oriau a’r holl arian a roddodd hi yn ei thro i wahanol achosion da yn ei bro, go brin y byddai neb yn coelio.

I bobol sy’n cyfri’r oriau a’r ceiniogau ac yn mesur popeth yn ôl ei gost a’i bris, rhai gwirion sy’n gweithio felly.

Fel yn y Gors, diolch byth am wiriondeb.



Derek Evans, Haulfryn, Llambed wedi iddo ddal eog anferth yn y Teifi yn ddiweddar. “Digwyddiad anarferol iawn” medde aderyn bach wrth Clone! Ond tipyn o gamp mewn gwirionedd. Llongyfarchiadau Derek.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Cystadlu o safon uchel yn Eisteddfod Llambod

Cafwyd agoriad gwych i Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan gyda chyngherdd mawreddog yng nghwmni artistiaid o fri sef Hogia'r Wyddfa, Eleri Owen Edwards ac Elen Morgan. Fe'n cyfareddwyd gan ddatganiadau Hogia'r Wyddfa a'r athrylith Annette Bryn Parry ar y piano. Braf oedd gweld Meirion Sion Thomas yn serennu yn eu plith fel unawdydd ac yn amlwg wrth ei fodd ar y llwyfan. Hefyd cyfoethogwyd y noson yn fawr gan berfformiadau disglair yr unawdydd Eleri Owen Edwards a'r ferch ifanc dalentog Elen Morgan fel llfarydd a chantores. Arweiniwyd y noson mewn ffordd hwyliog a chartrefol gan Arwel. Roedd ymateb y gynulleidfa luosog yn dweud y cyfan ar y diwedd wrth i bawb godi ar eu traed a chymeradwyo'n frwd.

Yn ol yr arfer mwynhawyd gwledd o gystadlu o safon uchel gan y plant a'r bobl ifanc lleol ar brynghawn Sadwrn ac enillydd Dysgl hardd er cof am Mrs. Ray Morgan yn rhoddedig i'r cystadleuydd mwyaf addawol dan 16 oed yn yr adran gerdd oedd Meirion Sion Thomas.

Fore Sul cynhaliwyd oedfa undebol arbennig iawn yn Soar a chafwyd neges ddiffuant a erys yn y cof am amser hir gan Betty Griffiths, Lledrod yn ei ffordd ddihafal ei hun.



Eleni eto roedd Llais Llwyfan Llambod yn noson ardderchog a'r safon yn ol y beirniaid Mari Ffion a Terence Lloyd yn uchel iawn. Arweinydd y noson oedd Rhiannon Lewis a chyflawnodd ei gwaith gydag urddas. Enillydd y wobwr gyntaf o fil o bunnoedd oedd Rhian Lois o Bonrhydygroes sydd yn dilyn cwrs ol radd yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain. Wrth draddodi'r feirniadaeth ar ei rhan hi a'i chyd feirniad talodd Mari Ffion deyrnged uchel i'r cantorion ifanc dawnus am eu datganiadau hynod safonol, i Jeanette Massochi am ei chyfraniad nodedig fel cyfeilydd ac i'r Eisteddfod am gynnig gwobrau mor hael. Hefyd yn ystod y noson anrhydeddwyd J. Beynon Phillips o Gaerfyrddin fel enillydd y gystadleuaeth cyfansoddi geiriau Emyr ar gyfer dathlu Gwyl Ddewi. Cafwyd darlleniad deallus o'r emyn gan Elin Williams, enillydd Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn eleni.

Teithiodd y cystadleuwyr o bob cwr o Gymru ar gyfer yr Adran Agored ar ddydd Llun yr Eisteddfod. Yn ol y beirniaid roedd y llfarywyr a'r cystadleuwyr yn yr Adran gerdd wedi cyrraedd tir uchel iawn. Enillydd Dysgl hardd er cof am Mrs. Ray Morgan yn yr Adran Gerdd dan 16 oed i'r cystadleuydd mwyaf addawol oedd Iwan Jones, Llanishen, Caerdydd.

Roedd y cystadlu yn yr adran lenyddol yn niferus iawn o ran rhif a'r beirniad yn uchel eu canmoliaeth o'r safon er gwaetha'r siom o atal y wobwr yng nghystadleuaeth y Gadair dan 25 oed. Cipiwyd y Tlws ieuencid i rai dan 25 oed am ddarn o ryddiaeth ar y testun "Ar Goll" gan Catrin Haf Jones o Lanarth.



Enillydd y Fedal Ryddiaith oedd Lyn Ebenezer a'r buddugol yng nghystadleuaeth y Gadair oedd Mari Lisa Davies o Gaerfyrddin gyda Melfyn Thomas o Fangor yn cipio'r Goron. Llywiwyd y seremonïau gan Dorian Jones a seiniwyd y corn gwlad gan Cerith Morgan o Fwlchllan. Pleser oedd gwyllo merched ysgol Llanllwni yn cyflwyno dawns flodau er anrhydedd i'r buddugwyr. Llywiwyd seremoni'r Tlws Ieuencid gan Delor James ac fe'i cynorthwywyd gan ddisgyblion yr Ysgol Gyfun.

Agorwyd yr Eisteddfod ar y Sadwrn gan Janet Evans, Cadeirydd y Pwyllgor gwaith a'r Maer y Cynghorydd Selwyn Walters yn cyflawni'r gwaith ddydd Llun. Llywyddion yr Ŵyl oedd Delor James, Heddwyn Davies, John Metcalf a Deian Creunant. Diolch iddynt am areithiau diddorol a'u cyfraniadau hael i'r gronfa.



Rhian Davies, Pencader yn ennill y brif gystadleuaeth Lefaru dan 21 oed a'r gystadleuaeth Fonolog.

Yn olaf ond nid y lleiaf mawr yw ein gwerthfawrogiad i holl noddwyr yr Eisteddfod am eu haelioni, i Mr. Dylan Wyn Prifathro'r ysgol ac i Geraint am eu cydweithrediad parod yn ol yr arfer ac i'r holl gystadleuwyr am eu cefnogaeth. Talwyd teyrnged i Janet am ei harweiniad cadarn yn ystod ei chynnod fel cadeirydd y pwyllgor gwaith. Dymunir yn dda i'r holynydd Elin Williams.

I gloi penwythnos cofiadwy arall cafwyd gwefr yn gwrando ar yr Her Unawd a'r Brif Gystadleuaeth Lefaru gyda Kees Huysmans o Dregroes yn cyflawni camp aruthrol drwy ennill y canu am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Elen Gwenllian o Gaernarfon oedd yn fuddugol yn y llfaryddiaeth a merch ifanc leol yn yr ail safle sef Lowri Daniel, Cellan.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Mae'r haf wedi dod i ben, er, fyddai ambell un rwy'n adnabod yn dadlau na welwyd llawer ohono'n y lle cyntaf! Fe ges i haf prysur gyda nifer o sioeau hyd a lled Ceredigion yn dal i fwrw ymlaen er gwaethaf y tywydd cyfnewidiol. Roedd hi'n braf i weld cynifer o bobl yn mynychu'r sioeau ac fe hoffwn gymryd y cyfle i longyfarch yr holl gystadleuwyr ar eu llwyddiant ac i bwyllgorau pob sioe am eu gwaith caled.

Ym mis Gorffennaf, fe fynychais y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd am y pedwar diwrnod llawn. Yn ystod y Sioe, fe gyhoeddais cynlluniau newydd i roi cymorth i bobl ifanc sydd am ddechrau yn y diwydiant amaethyddol. Roeddwn hefyd yn falch i weld cymaint o wynebau cyfarwydd o Geredigion yn Llanellwedd, a chyda llai na blwyddyn tan y bydd ein sir yn noddig i'r Sioe, mae'r gwaith o godi arian ar ei chyfer yn mynd yn ei flaen yn llwyddiannus.

Yn ystod wythnos cyntaf Awst, fe deithiais i'r Bala i fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd hi'n wythnos wych gyda'r tywydd yn ffafriol. Yno, mynychais lansiad apêl i godi arian i brynu a chynnal wal 'Cofiwch Dryweryn' ger Llanrhystud er mwyn sicrhau bod y gofeb yno am flynyddoedd i ddod.

Yng nghanol mis Awst, fe ymunais â Gweinidog Iechyd Llywodraeth y Cynulliad, Edwina Hart AC, ar ymweliad ag Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth. Pwrpas yr ymweliad oedd gweld y cynlluniau ar gyfer codi estyniad newydd i'r ysbyty er mwyn darparu cyfleusterau newydd fydd yn cynnwys theatrau a ward mamolaeth newydd. Y gobaith yw y bydd y gwaith adeiladu'n cychwyn cyn diwedd y flwyddyn ac yn parhau am y blynyddoedd nesaf.



Dôl-Mebyd, Pencarreg

Annwyl blant, sut ydych chi gyd? Gobeithio eich bod chi i gyd yn go lew. Mae'r Hydref wedi cyrraedd, ac rwyf finnau a Joni Jacos wedi gorfod claddu'r dillad haf yn barod. Ww! Does dim byd gwaeth na sythu!

Roedd y gwaith lliwio'r mis diwethaf yn arbennig o dda ac roedd rhaid cosi pen yn ofnadwy i ddod o hyd i'r enillydd.

Mae clod mawr yn mynd i Laura Gaskell o Ffosyffin, Miriam Butcher o Gaerdydd, Dion Wyn o Dalgarreg ac Owain Jones o Gwmsychbant. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Lois Jones, Blaenhirbant Uchaf, Cwmsychbant. Llongyfarchiadau mawr iawn i chi gyd a chofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a'i ddanfôn ataf erbyn dydd Llun, 26ain o Hydref.

Hwyl am y tro,



Enillydd
y mis!

Lois
Jones

'Cerdd I'n Swyno' I blant dan 12 oed

Tipyn o siom i'r Dewin Doeth y mis hwn – neb wedi bwrw ati i'w swyno â'u straeon. Pawb wedi bod mor brysur ar ddechrau tymor newydd siwr o fod, ac heb gael cyfle i ysgrifennu stori fach! Beth bynnag, dw i am newid cyfeiriad a gweld faint o feirdd ydych chi. Felly cystadleuaeth y mis hwn fydd ysgrifennu cerdd ar y teitl 'OFN'.

Cyfle i ennill

Cofiwch anfon eich cerdd at: 'Y Dewin Doeth', Tocyn Llyfr gwerth Glasfan, Drefach, Llanybydder, SA40 9SY
neu cystadleuaeth@clonc.co.uk

£10



Enw:

Cyfeiriad:

Ysgol Cyfun Llanbedr Pont Steffan



Llongyfarchiadau i bawb oedd ynghlwm â chanlyniadau lefel A a TGAU eleni. Cafwyd canlyniadau anhygoel, gyda 81% yn ennill y graddau uwch sef A-C, a 69% yn ennill graddau A neu B. Dyma'r ganran uchaf o raddau A a B erioed a'r canlyniadau gorau yn hanes yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion am eu hymdrechion a'u gwaith caled ac hefyd i'r staff am eu paratodau trwyadl. Dyma rai o'r canlyniadau gorau: Martin Theodorou 4A, Luned Mair 4A, Hedydd Davies 3A, Natalie Moore 3A, Carys Thomas 3A, Russell Pink 2A 1B, Rhian Thomas 2A 1B, Kieran Hollingsworth 2A 1B, Owen Williams 2A 1B, Trystan Lloyd 3A, Fiona Williams 2A 1B, Aled Parry 3A, Elin Haf Jones 2A 1B.

Llwyddodd 75% o ddisgyblion Blwyddyn 11 i ennill o leiaf 5 gradd A*-C. Dyma'r canlyniadau TGAU gorau yn hanes yr ysgol. Pob clod iddynt am gynnal y safon ardderchog yma a diolchwn hefyd i'w hathrawon am eu hymroddiad a'u harweiniad.

Dyma'r disgyblion gafodd y canlyniadau TGAU gorau: Ben Lake, Zola Kopasci, Daniella Beaumont, Llyr Davies, Gemma Evans, Elen Thomas, Angharad Evans, Craig Richards, Elliw Mair, Megan Holt, Charlotte Evans, Thomas Merrow-Smith, Daniel Hurton, Catrin Langford.

"Llongyfarchiadau gwresog i bawb sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau eleni. Mae eich gwaith caled wedi dwyn ffrwyth a rydym yn falch iawn o'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni. Dyma'r canlyniadau Safon Uwch a TGAU gorau yn hanes yr ysgol. Diolchwn hefyd i'n partneriaid – yr ysgolion cynradd a swyddogion yr Awdurdod Addysg Lleol – am eu cefnogaeth wrth i ni gyflawni'r gwaith. Dymuniadau da i'r dyfodol." Dylan Wyn (Prifathro).

Estynnwn groeso cynnes i'r ysgol i ddau aelod newydd o staff sef Miss Hedydd Jones, fydd yn dysgu Dyniaethau a Chymraeg ac i Miss Heledd Hughes fydd yn dysgu Cerddoriaeth a Chwaraeon ac yn pontio gyda'r ysgolion cynradd. Croesawn hefyd Mr Eirwyn Thomas fydd yn cyflenwi yn yr Adran Dechnoleg Gwybodaeth.

Dymunwn wellhad buan i Mrs Kay Morris, yn dilyn llawdriniaeth.

Bu wythnos gynta'r tymor yn un brysur iawn i'r flwyddyn 12 newydd. Yn ystod yr wythnos, cafwyd diwrnod mentergarwch, a thaith i Ganolfan Gweithgareddau Llain.

Llongyfarchiadau mawr i Shawn Brown sydd wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto mewn cystadleuaeth i Beirianwyr Ifanc. Bu'n cystadlu yn erbyn disgyblion o ysgolion led led Cymru yn Rownd Derfynol Rhanbarthau Cymru yn Techniquet yng Nghaerdydd, a Shawn gipiodd y wobwr gyntaf.

Bu'n cynllunio ac yn adeiladu cerbyd sy'n rhedeg ar ynni'r haul ar gyfer ei brosiect lefel A, gan ddefnyddio deunyddiau wedi eu hail-gylchu. Y mae Shawn, ynghyd â'r beic eisoes wedi ymddangos ar raglen deledu Mosgito ar S4C, ac y mae hefyd wedi bod yn paratoi fideo yn ardal Llanybydder i hyrwyddo'r beic. Y mae Shawn yn awyddus i hybu gwaith yr elusen 'Re-Cycle', sy'n ail-gylchu beiciau ac yn eu danfon i Affrica. Mae'n gobeithio agor cangen o'r elusen yn ardal Llanbed. Pob lwc i ti Shawn.

Dymunwn bob lwc hefyd i Kieran Hollingsworth a Shawn Brown yng Ngwobrau Arloesedd CBAC 2009. Bydd eu gwaith yn cael ei arddangos yng Ngerddi Soffia fis Hydref.

Llongyfarchiadau gwresog i dri disgybl o flwyddyn 11 ar eu llwyddiannau ar y cae rygbi. Dewiswyd Daniel Doughty yn aelod o garfan y Sgarlets dan 16 a Carwen Richards a Lisa Thomas yn aelodau o dîm merched y Sgarlets dan 18. Dymunwn bob lwc iddynt.

Llongyfarchiadau mawr i Amy Richardson o flwyddyn 13 ar ennill gwobr 5x60 'Gwirfoddolwr y flwyddyn 2009'. Ar ôl dangos diddordeb yng nghynllun 5x60 yn dilyn ymweliad Arwel Jones â'r ysgol, bu Amy yn brysur iawn yn ystod y flwyddyn yn hyfforddi pêl-droed i ddisgyblion ar ôl ysgol ac hefyd yn dyfarnu mewn gêmâu pêl-droed. Dangosodd ymroddiad arbennig ac o ganlyniad enillodd y wobwr. Mae Amy wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn ac y mae'n annog disgyblion sydd â diddordeb i ymuno â'r cynllun eleni. Cafodd Amy hefyd brofiad bythgofiadwy mis Mawrth eleni yn ystod ei wythnos profiad gwaith. Bu Amy yn Manceinion yn y 'Manchester United Foundation' yn hyfforddi chwaraewyr ifanc. Cafodd gyfle hefyd i hyfforddi'r tîmau dan 7,8 a 9 oed. Da iawn ti.

Mewn treialon diweddar, dewiswyd y canlynol i garfanau hoci Ceredigion: Bl 9 Lauren James, Bl 10 Sioned Douglas, Siân Elin Williams a Kiri Douglas. Bl 11 Jodie Thomas a Carwen Richards.

O gwmpas y fro



Non ac Audrey, Blaencarreg, Llywyddion Sioe Llansawel yn cyflwyno tlws o grochenwaith hardd i Mrs Sara Humphreys-Jones, Frongelli, Alltyblaca am ddod yn bencampwraig yn yr adran flodau.



Steffan Thomas, Joseph Jenkins a Rhys Douglas o dîm pêl-droed Llambed a fu'n cynrychioli De Ceredigion o dan 13 oed yn y "Wales Super Cup" yn Aberystwyth ac yn ennill y "Bowl Final" ar ddiwedd y twrnament.



Sara Evans, Waun, Llanybydder a fu'n llwyddiannus ym mhencampwriaethau neidio ceffylau Prydain Fawr i bobol ifanc ym mis Awst.



Dyma lun o Heledd (Llysfaen Uchaf, Llanwnnen) yn ennill pencampwriaeth y defaid Llanwenog mewn sioe yn Worcester ym mis Medi (gyda Jeeves).



Dyma lun a dynwyd yng Nghapel y Groes o Luned Mair yn derbyn ei Thystysgrif Ymaelodi â'r capel. Yn y llun hefyd mae Nans Davies (Ysgrifennydd) a Cen Llwyd (Gweinidog).



Cylch Meithrin Drefach yn gwthio gwely nodedig. Dechreuodd y daith tu allan i'r cylch a gorffen yn y Llew Du yn Llanybydder, lle cafwyd swper blasus. Diolch i bawb am bob cefnogaeth i sicrhau swm dda i'r gronfa.



Tîm Pêl-droed dan 9 oed Llambed a ddaeth yn ail mewn twrnament a gynhaliwyd yng Nghastell Newydd Emlyn gyda'i hyfforddwr Greg.



D & C Rallying



Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664
CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT

*** Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs ***

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni
Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN

Clwb Ffermwyr Ifanc Bro'r Dderi



C.Ff.I. Bro'r Dderi a ddaeth yn ail o fewn 1 pwynt i Bontsian yn Chwaraeon y Sir ar ddechrau'r haf. Dyma'r aelodau'n modelu eu crysau newydd a noddwyd gan Mark a Carl Douglas, Lladd-dŷ, Cwm-ann. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu haelioni.

Ffair Ram



Cynhaliwyd y Ffair ar y 12fed Medi. Yn y llun gwelir y Llywydd Ann Douch a rhai o'r enillwyr. Adran Fferm – Iestyn Russell; Adran CFFI – Iestyn Russell; Llysiau a Ffrwythau – Alun Jones; Blodau – Muriel McMillan; Coginio – Gwen Jones; Cyffeithiau / Gwinoedd – Joyce Williams; Dosbarth Derbyn – Mali Jones; Ysgol Feithrin – Gwenllian Llwyd; Blwyddyn 1 a 2 – Bryn Thomas; Blwyddyn 3 a 4 – Lisa Lewis; Blwyddyn 5 a 6 – Manon Haf Williams ac Iwan Rhys Williams; Ysgol Uwchradd – Sioned Douglas; Arlunwaith a Ffotos – Dilys Godfrey; Crefftau Cefn Gwlad – Alun Jones; Gwaith Llaw – Dilys Godfrey; Adran y Defaid – Teulu Gelliwrol; Cwpan Sialens Felindre Uchaf – Alun Jones; Cwpan Sialens Felindre Isaf – Teulu Gelliwrol; Cwpan Sialens Tafarn y Ram – Dewi Evans; Cwpan Sialens Eric Harries – Teulu Gelliwrol; Cwpan Sialens Dalgety – Teulu Gelliwrol.